



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **Crynodeb o'r Newidiadau i Gynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru**

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Tachwedd 2019

|   |    |
|---|----|
| Cyflwyniad  | 1  |
| Diben yr adroddiad hwn                              | 1  |
| Ymgysylltu ar ôl yr ymgynghoriad                    | 2  |
| Themâu allweddol sy'n codi o'r ymgynghoriad         | 2  |
| Tabl 1: Themâu allweddol                            | 4  |
| Addasiadau a wnaed i'r WNMP fesul adran             | 8  |
| Tabl 2: Gweledigaeth ac Amcanion yr WNMP            | 8  |
| Tabl 3: Polisiâu Cyffredinol yr WNMP                | 10 |
| Tabl 4: Ardaloedd Adnoddau Strategol                | 14 |
| Tabl 5: Polisiâu Sector yr WNMP – Amcanion y Sector | 16 |
| Tabl 6: Polisiâu Sector yr WNMP – Polisi Ategol     | 18 |
| Tabl 7: Polisiâu Sector yr WNMP – Polisi Diogelu    | 23 |
| Dim newidiadau yn ôl adran                          | 24 |
| Tabl 8: Materion Cyffredinol                        | 24 |
| Tabl 9: Gweledigaeth ac Amcanion yr WNMP            | 26 |
| Tabl 10: Polisiâu Cyffredinol yr WNMP               | 28 |
| Tabl 11: Polisiâu Sectorau                          | 32 |

## Cyflwyniad

1. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) yn darparu fframwaith cyffredinol i lywio datblygiad cynaliadwy moroedd Cymru. Mae wedi'i baratoi a'i fabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MCAA) 2009<sup>1</sup> ac yn unol â Datganiad Polisi Morol y DU (MPS)<sup>2</sup>.

2. Lanswyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr WNMP drafft ar 7 Rhagfyr 2017 a daeth i ben ar 29 Mawrth 2018. Cyhoeddwyd Crynodeb o'r Ymatebion<sup>3</sup> i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2018, gan ddadansoddi a nodi'r themâu

allweddol a ddeilliodd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad. Hefyd, cymerodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad dystiolaeth ar gynllunio morol ar 1 Chwefror 2018 a chynhaliodd weithdy i randdeiliaid i drafod yr WNMP drafft ar 14 Mawrth 2018. Gwnaeth y Pwyllgor 13 o argymhellion ar yr WNMP drafft ym mis Ebrill 2018<sup>4</sup>, ac ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig iddo ar 12 Mehefin 2018<sup>5</sup>.

## Diben yr adroddiad hwn

3. Yn unol â'r MCAA (Atodlen 6, Adran 15(7)), mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'r WNMP a fabwysiadwyd yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r drafft ymgynghoriad a'r rhesymau dros y newidiadau hyn. Mae'r adroddiad hwn yn nodi:

- crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid ar yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r WNMP drafft
- trosolwg o'r newidiadau a wnaed i'r WNMP mewn ymateb i'r sylwadau hyn a
- throsolwg o'r newidiadau a awgrymwyd ond na ystyriwyd yn briodol, ynghyd â'r rhesymau dros hyn.

1 [www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/contents](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/23/contents)

2 [assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/69322/pb3654-marine-policy-statement-110316.pdf](http://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69322/pb3654-marine-policy-statement-110316.pdf)

3 [www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-07/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-drafft-crynodeb-o-ymatebion.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-07/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-drafft-crynodeb-o-ymatebion.pdf)

4 [www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld11543/cr-ld11543-w.pdf](http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld11543/cr-ld11543-w.pdf)

5 [www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11609/gen-ld11609-w.pdf](http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11609/gen-ld11609-w.pdf)

## Ymgysylltu ar ôl yr ymgynghoriad

4. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd gweithdai gydag aelodau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG) rhwng misoedd Mai a Medi 2018 i ystyried y materion allweddol a ddeilliodd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Dyma'r materion a ystyriwyd:

- strwythur a chynnwys y cynllun
- Datblygu Cynaliadwy a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)
- Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRAs)
- rheoli trawsffiniol a
- thystiolaeth.

5. Sefydlwyd Grŵp Technegol ar Asesu Rheoliadau Cynefinoedd ac Arfarnu Cynaliadwyedd Morlyn Llanw y Cynllun Morol (MPSRG) i fynd i'r afael â'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar bolisi amrediad llanw (morlyn llanw) arfaethedig yn yr WNMP drafft. Cyfarfu'r grŵp hwn bedair gwaith rhwng mis Medi 2018 a mis Ionawr 2019.

6. Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r MPSRG ym mis Rhagfyr 2018 a mis Ionawr 2019 i ystyried ail-ddrafftio'r WNMP a'r newidiadau a wnaed. Cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydol y broses ail-ddrafftio i lywio ystyriaethau o'r materion allweddol a godwyd gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth lunio fersiwn derfynol yr WNMP.

## Themâu allweddol sy'n codi o'r ymgynghoriad

7. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r WNMP drafft. Fel y cynllun cyntaf o'i fath ar gyfer moroedd Cymru, cydnabu ei fod yn gam sylweddol ymlaen o ran darparu cynllun strategol ar gyfer amgylchedd morol Cymru. Roedd cydnabyddiaeth hefyd o faint o waith oedd ynghlwm wrth ddatblygu'r WNMP drafft ac i ba raddau yr oedd y data a'r wybodaeth a oedd yn sail i'r cynlluniau ar gael, ac roedd yr ymatebwyr yn cefnogi Porth Cynllunio Morol Cymru.

8. Yn ogystal â sylwadau manwl yn ymwneud â pholisïau WNMP drafft unigol, daeth amryw o themâu allweddol i'r amlwg yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

### Strwythur y cynllun:

9. Er eu bod yn croesawu fformat yr WNMP drafft a'i ddarpariaeth o ganllawiau gweithredu, roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai hyd a chymhlethdod y cynllun effeithio ar ddefnyddioldeb. Awgrymwyd y dylid ail-strwythuro'r WNMP drafft i drosglwyddo

canllawiau a deunydd cyd-destunol i atodiadau a/neu ddogfennau atodol ac y dylid darparu mwy o eglurder ar y rhyngweithio rhwng polisïau'r cynllun. Mae mwy o fanylion, ynghyd â chrynodeb o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn Nhabl 1.

### Datblygu Cynaliadwy:

10. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu ymrwymiad yr WNMP drafft i gefnogi cyflawni Statws Amgylcheddol Da (GES) a'r cysylltiadau cryf mae'r cynllun yn eu gwneud i ddull ecosystem. Mynegwyd cefnogaeth hefyd i'r ymrwymiad i warchod a gwella bioamrywiaeth morol a chydnerthedd ecosystemau. Fodd bynnag, cododd yr ymatebwyr amryw o faterion mewn perthynas â dull gweithredu'r WNMP drafft o ran datblygu cynaliadwy a'r cydbwysedd rhwng y tair colofn cynaliadwyedd (yr amgylchedd, cymdeithas, yr economi), ac roeddent yn teimlo y dylid cymhwyso gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac yn

enwedig SMNR, yn gliriach. Mae mwy o fanylion, ynghyd â chrynodeb o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn Nhabl 1.

### **Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRAs):**

11. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r bwriad o ddarparu cyfeiriad gofodol yn yr WNMP drafft, ond mynegwyd rhai pryderon ynghylch amryw o agweddau mewn perthynas ag SRAs, gan gynnwys:

- diffyg eglurder o ran diben a rôl SRAs wrth wneud penderfyniadau
- bod SRAs arfaethedig yn cefnogi twf y sector, er nad yw eto'n cael ei ategu gan dystiolaeth gynhwysfawr o gyfyngiadau amgylcheddol
- bod rhai anghysondebau yn y fethodoleg a'r dull o nodi a diffinio ffiniau SRA arfaethedig a
- dylai fod cyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn briodol er mwyn cefnogi'r gwaith o nodi a datblygu SRAs.

12. Mae mwy o fanylion, ynghyd â chrynodeb o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn Nhabl 4.

### **Polisi ar ddatblygu morlyn llanw:**

13. Er bod yr ymatebwyr yn cefnogi polisi i annog ynni carbon isel, mynegwyd pryder sylweddol ynghylch y polisi WNMP drafft ar forlynnoedd llanw a'i gefnogaeth i ddatblygiadau morlyn ar raddfa fawr ochr yn ochr â chanfyddiadau'r HRA na ellid dod i'r casgliad na fyddai polisi o'r fath yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd Safle(oedd) Ewropeaidd. Nododd ymatebwyr hefyd fod datblygiad o'r fath yn debygol o arwain at effeithiau ac effeithiau cronol yn ymestyn ar draws ffiniau cenedlaethol, cynllunio morol a thir/môr, ac roeddent o'r farn y dylai'r WNMP drafft ymdrin â'r materion hyn yn fwy eglur. Mae mwy o fanylion, ynghyd â chrynodeb o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn Nhabl 6.

### **Rheoli trawsffiniol:**

14. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd cyfeiriad polisi clir ar gydlynid trawsffiniol, yn enwedig o ystyried dyfroedd morydol a rennir afonydd Hafren a Dyfrdwy, a nododd y diffyg polisi penodol ar gydweithredu trawsffiniol a Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM). Mae Tablau 1 a 3 yn rhoi mwy o fanylion am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

### **Tystiolaeth, monitro ac adrodd:**

15. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd tystiolaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, a gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch darpariaethau monitro ac adrodd ar gyflawniadau yn erbyn amcanion yr WNMP. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Monitro ac Adrodd ochr yn ochr â'r WNMP a fabwysiadwyd. Er bod rhaglen casglu tystiolaeth forol y tu allan i gwmpas uniongyrchol yr WNMP, mae diweddariad i Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r WNMP ac mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Strategaeth Tystiolaeth y Môr a Physgodfeydd.

**Tabl 1: Themâu allweddol**

| Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|---|--|
| <b>Strwythur yr WNMP</b>  |  |
| <p>Mae'r WNMP drafft yn hir iawn. Gellid symud elfennau o wybodaeth ategol a chyd-destunol i atodiadau, gan leihau hyd y cynllun a chynyddu ei ddefnyddioldeb. Mae cynnwys canllawiau gweithredu technegol a manwl yn yr WNMP drafft yn arwain at y canllawiau hyn yn cael eu labelu fel polisi, gan greu dryswch rhwng statws y canllawiau hyn a pholisïau gwirioneddol WNMP. Byddai'r canllawiau hyn yn well mewn dogfen(nau) atodol y gellir eu diweddar'u'n fwy hyblyg, gan alluogi'r WNMP i fod yn symlach ac yn haws ei ddefnyddio.</p> | <p>Mae'r WNMP wedi'i ailffocysu ar y weledigaeth graidd, yr amcanion a'r polisïau. Ategir polisïau'r cynllun gan naratifau polisi cliriach a mwy cryno. Mae cymorth technegol a deunydd cyfarwyddyd wedi'i drosglwyddo i Ganllawiau Gweithredu ar wahân a dogfennau canllawiau atodol eraill. Mae Cyflwyniad yr WNMP yn egluro statws y Canllawiau Gweithredu fel ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau.</p> <p>Mae polisi diogelu wedi'i symleiddio trwy gyflwyno Polisi Diogelu Cyffredin yn lle Polisïau Diogelu Sector unigol (ar gyfer sectorau ar wahân i Amddiffyn).</p> <p>Mae naratif ar y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ar gyfer cynllunio morol, ar y broses cynllunio morol ac ar integreiddio â phrosesau cynllunio eraill wedi'i drosglwyddo i Atodiad 1 i'r WNMP.</p> |
| <b>Cydlynu Polisi</b>   |  |
| <p>Nid yw hi'n glir sut mae polisïau'r cynllun yn rhyngweithio â'i gilydd a pha bolisïau sy'n cael blaenoriaeth os bydd gwrthdaro; er enghraifft, rhwng polisïau Cyffredinol a Sector.</p>  | <p>Ychwanegwyd rhagor o eglurder at yr WNMP, gan gadarnhau bod pob polisi yr un mor berthnasol â'i gilydd, heb unrhyw hierarchaeth yn y polisïau. Nid yw polisïau GEN_01 a GEN_02 yn cael eu disgrifio fel rhai cyffredinol mwyach.</p> <p>Ychwanegwyd tabl at y Cyflwyniad yn dangos aliniad y Polisïau Cyffredinol a Sector i Amcanion y Cynllun. Mae geiriad y Polisïau Ategol wedi'i ddiwygio i gyfeirio'n benodol at y gofyniad i gyd-fynd â'r Polisïau Cyffredinol. Nid oedd unrhyw gefnogaeth gan aelodau MPSRG i gynnwys tabl yn nodi'r aliniad rhwng Polisïau Cyffredinol a Sector.</p>   |
| <p>Mae rhywfaint o anghysondeb o ran y geiriad rhwng gwahanol bolisïau sy'n peri risg yn anfwriadol o greu hierarchaeth polisi.</p>   | <p>Adolygwyd geiriad polisïau unigol a chyflwynwyd terminoleg gyson lle bo angen.</p>  |

| Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Y newid a wnaed o ganlyniad   |
|--|---|
| <p>Lle mae polisïau wedi'u fframio i roi anogaeth gyffredinol i fathau penodol o gynigion, mae diffyg eglurder o ran yr hyn a olygir gan y term 'annog'.</p>   | <p>Lle'n berthnasol, mae geiriad y Polisïau Cyffredinol wedi'i ddiwygio i nodi gofynion ar gyfer cynigion i ddangos sut y maent wedi mynd i'r afael â'r ystyriaethau sy'n berthnasol i'r nod polisi. Mae cyfeiriad polisi sydd wedi'i eirio'n gadarnhaol wedi'i gadw er mwyn galluogi'r WNMP i weithredu fel fframwaith cynllunio cadarnhaol.</p> <p>Mae geiriad y Polisïau Ategol wedi'i ddiwygio i ddatgan y caiff cynigion sy'n cyfrannu at amcanion a pholisïr WNMP, ac yn cydymffurfio â nhw, eu cefnogi.</p> <p>Ategir Polisïau Cyffredinol a Sector gan naratif ar y nodau allweddol a'r egwyddorion sylfaenol.</p>  |
| Datblygu Cynaliadwy  |   |
| <p>Mae angen gwell cydbwysedd ac integreiddio'r tair colofn Datblygu Cynaliadwy (Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol). Ar hyn o bryd, mae'r WNMP yn rhoi mwy o bwyslais ar dwf yr economi forol nag ar sicrhau cydnerthedd ecosystemau a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.</p> <p>Mae Polisïau Ategol yn canolbwyntio ar dwf economaidd a gallai danseilio amcanion y cynllun ar adfer cydnerthedd ecosystemau. Mae gan bolisi sy'n mynegi cefnogaeth i seilwaith morlyn llanw ar raddfa fawr botensial sylweddol i arwain at effeithiau andwyol ar safleoedd a rhywogaethau gwarchoddedig. Nid yw SRAs yn seiliedig ar ystyriaeth o gyfyngiadau amgylcheddol na sensitifrwydd ar hyn o bryd.</p> | <p>Datblygwyd polisïau'r WNMP i weithio gyda'i gilydd, gyda Pholisïau trawsbynciol Cyffredinol a Pholisïau Sector yn dod at ei gilydd i gefnogi datblygu cynaliadwy ar y cyd. Nodir hyn yn glir yn yr WNMP ac mae geiriad y Polisïau Ategol wedi'i ddiwygio i ddangos y gofyniad i gyd-fynd ag Amcanion y Cynllun a'r Polisïau Cyffredinol.</p> <p>Mae'r WNMP bellach yn cyfeirio'n fwy clir at werth cynhenid yr amgylchedd morol ac ecosystemau'r môr. Mae'r cyfeiriadau at flaenoriaethu buddsoddiad, arloesi a thwf wedi'u dileu o'r polisi sy'n cyd-fynd â GEN_01. Mae polisi ENV_01 ar ecosystemau morol cydnerth wedi'i gryfhau i'w gwneud hi'n ofynnol i ystyried effeithiau andwyol posibl, ochr yn ochr ag annog manteision cadarnhaol.</p> <p>Mae targedau twf penodol i sector wedi'u dileu. Mae polisi morlyn llanw wedi canolbwyntio ar ddull cam wrth gam i gefnogi'r sector, gan gynnwys datblygu tystiolaeth i ganiatáu gwell dealltwriaeth o gyfleoedd yn y dyfodol.</p> <p>Dilëwyd y cysylltiad rhwng SRAs a Pholisïau Ategol, a chaiff SRAs eu hailffocysu fel offeryn i ddiogelu'r defnydd posibl o adnoddau cynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r WNMP yn nodi'r meini prawf i'w hystyried wrth ddatblygu SRAs, sy'n cynnwys cyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol. Mae eglurhad na fydd SRAs yn llesteirio'n ormodol ddynodiad MPAs er mwyn sicrhau bod cyfraniad priodol at rwydwaith MPA ystyrion wedi'i ychwanegu at naratif y polisi.</p> |

| Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad   |
|---|---|
| <p>I gyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA), ni ddylid defnyddio'r termau "sichau'r twf mwyaf" a "twf cynaliadwy"; dylid cyfeirio'n gyson at "datblygu cynaliadwy". Dylid darparu diffiniad o Dwf Glas.</p> | <p>Mae'r testun yn yr WNMP drwyddo draw wedi'i fireinio, gyda chyfeiriadau at sichau'r twf mwyaf neu annog twf cynaliadwy wedi'u dileu, a chyfeiriadau cyson at ddatblygu cynaliadwy wedi'u cynnwys.</p> <p>Mae diffiniad o Dwf Glas wedi'i ddarparu, yn seiliedig ar dwf a datblygiad economaidd sy'n cefnogi tegwch cymdeithasol ac yn sichau y gall asedau naturiol barhau i ddarparu'r adnoddau a'r manteision amgylcheddol y mae llesiant yn dibynnu arnynt. Cytunwyd ar y diffiniad hwn gyda'r MPSRG.</p>   |
| <p><b>Statws Amgylcheddol Da (GES)</b></p>  |   |
| <p>Mae'n ymddangos bod rhai polisiau'n cael eu priodoli'n anghywir i Ddisgrifyddion GES.</p> <p>Nid yw'n ymddangos bod gan yr WNMP unrhyw bolisiau sy'n ymwneud ag uniondeb gwely'r môr na newid amodau hydrograffigol.</p>               | <p>Mae naratif ychwanegol wedi'i ymgorffori er mwyn nodi'n gliriach natur cymorth yr WNMP i gyflawni GES a'r ffordd mae Disgrifyddion GES yn cael eu trafod gan yr WNMP a'i bolisiau.</p> <p>Mae'r naratif wedi'i ychwanegu at Dabl 5, gan nodi natur cymorth yr WNMP i gyflawni pob Disgrifydd GES a disgrifio sut mae polisiau'r WNMP yn cyfrannu at gyflawni'r Disgrifydd hwnnw. Mae hyn yn cynnwys eglurder ar y polisiau sy'n cyfrannu at gyflawni'r Disgrifyddion ar uniondeb gwely'r môr a newid amodau hydrograffigol.</p> <p>Ychwanegwyd testun at y naratifau sy'n cyd-fynd â pholisiau unigol sy'n amlgu aliniad y polisiau hyn i Ddisgrifyddion GES.</p>  |
| <p><b>Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)</b></p>   |   |
| <p>Dylid cymhwyso egwyddorion SMNR yn gliriach a chefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Forol y DU. Cyfeirir at gyflawni SMNR fel canlyniad dymunol yn hytrach na gofyniad sylfaenol.</p>   | <p>Mae naratif i gyd-fynd â'r WNMP ar y berthynas rhwng Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chynllunio morol wedi cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi mewn cydweithrediad â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod ffocws amcanion ac egwyddorion SMNR yn berthnasol i CNC wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r naratif yn nodi rôl yr WNMP fel offeryn cynllunio sy'n cefnogi rheoli adnoddau naturiol fel y'i nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP).</p> <p>Mae'r WNMP yn cyd-fynd â chynlluniau a pholisiau strategol a lleol eraill sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r NRP. Mae'r cyfeiriadau at SMNR yn yr WNMP wedi'u symleiddio yn unol â hynny ac mae naratif clir ac estynedig wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i'r WNMP, sy'n nodi sut y cymhwysir egwyddorion SMNR yn yr WNMP.</p> |



| Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|---|--|
|   | <p>Mae'r WNMP bellach yn cyfeirio'n glir at werth cynhenid yr amgylchedd morol ac ecosystemau'r môr. Dilëwyd targedau twf sector, darparwyd mwy o eglurder ar gysoni polisiau'r cynllun â Strategaeth Forol y DU ac mae'r Disgrifyddion GES a'r cysylltiad rhwng SRAs a Pholisi Ategol Sector wedi'i ddileu.</p>   |
| <p><b>Rheoli Trawsffiniol</b></p>   |  |
| <p>Dylid darparu mwy o wybodaeth am sut y cyflawnir cydlyniaeth drawsffiniol (ffiniau tir/môr a ffiniau cenedlaethol/cynllunio morol) a sut y dylid ystyried materion trawsffiniol.</p>   | <p>Ehangwyd Atodiad 1 i'r WNMP er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn a darparu mwy o wybodaeth am integreiddio â phrosesau cynllunio eraill, tra bod polisi GOV_02 wedi'i ailffocysu'n benodol ar gydnawsedd trawsffiniol a chydawnsedd y cynllun.</p> <p>Bydd mwy o gyfeiriadau at ystyriaethau trawsffiniol yn cael eu cynnwys yn y Canllawiau Gweithredu sy'n cyd-fynd â'r WNMP.</p> |
| <p><b>Cymesuredd a rhagofal</b></p>   |  |
| <p>Croesawyd ffocws yr WNMP drafft ar gymesuredd a chynnwys polisiau GEN_02 a SCI_01. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd cyfeiriad polisi clir fel bod modd gwneud penderfyniadau cymesur gan sicrhau nad yw'r egwyddor ragofalus yn cael ei cholli.</p> | <p>Mae iaith bellach ar yr egwyddor ragofalus wedi'i hychwanegu at yr WNMP, a bydd y Canllawiau Gweithredu sy'n cyd-fynd â'r WNMP yn cynnwys canllawiau ar wneud penderfyniadau cymesur ac yn cymhwyso'r egwyddor ragofalus lle bo hynny'n briodol (er enghraifft, lle mae diffyg tystiolaeth yn ffactor).</p>   |

## Addasiadau a wnaed i'r WNMP fesul adran

16. Mae'r adran hon yn crynhoi sylwadau allweddol a wnaed mewn perthynas ag agweddau penodol ar bolisi'r WNMP, ynghyd â newidiadau yn sgil hynny i'r WNMP.

**Tabl 2: Gweledigaeth ac Amcanion yr WNMP**

| Adran                             | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad   |
|-----------------------------------|---|---|
| Cyflwyniad a Gweledigaeth yr WNMP | Wrth gyfeirio at y nod i'r WNMP lunio ein moroedd i gefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, dylid cyfeirio hefyd at amcanion diwylliannol. | Mae cyfeiriad at amcanion diwylliannol wedi'i ychwanegu at y cyflwyniad ac mae Gweledigaeth yr WNMP wedi'i hehangu i gynnwys treftadaeth ddiwylliannol forol.       |
| Gweledigaeth yr WNMP              | Dylai Gweledigaeth yr WNMP gyfeirio at bwysigrwydd rheoli adnoddau morol ac arfordirol mewn ffordd gynaliadwy.  | Ychwanegwyd cyfeiriad at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.   |
| Gweledigaeth yr WNMP              | Dylai Gweledigaeth yr WNMP gynnwys yr weledigaeth ei hun yn unig, ac nid naratif ar sut y cyflawnir yr weledigaeth.   | Mae'r testun ar sut y cyflawnir y weledigaeth wedi'i drosglwyddo i'r naratif sy'n cyd-fynd â Gweledigaeth yr WNMP.  |
| Gweledigaeth yr WNMP              | Dylai Gweledigaeth yr WNMP annog dealltwriaeth y cyhoedd.   | Mae Gweledigaeth yr WNMP bellach yn cynnwys cyfeiriad at wella iechyd a llesiant trwy ddealltwriaeth o'r amgylchedd morol a mynediad iddo.                          |
| Amcanion yr WNMP                  | Nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o bwysigrwydd twristiaeth a hamdden yn Amcanion yr WNMP.  | Ychwanegwyd amcan (sydd bellach yn Amcan 5 yn yr WNMP) sy'n cydnabod arwyddocâd twristiaeth arfordirol a hamdden.   |
| Amcan 3 yr WNMP                   | Byddai'n fuddiol nodi y dylai adnoddau ynni adnewyddadwy gael eu datblygu mewn mannau priodol.  | Mae cyfeiriad at "y datblygiad iawn yn y lle iawn" wedi'i ychwanegu.  |
| Amcan 5 yr WNMP                   | Nid oes modd dweud y gall yr WNMP, ynddo'i hun, leihau tlodi.   | Mae Amcan 5 (sydd bellach yn Amcan 6 yn yr WNMP) wedi'i aralleirio i ddileu'r cyfeiriad at leihau tlodi a chanolbwyntio ar gefnogi datblygiad cymunedau arfordirol. |
| Amcan 8 yr WNMP                   | Dylai'r amcan hwn gefnogi'r gwaith o gyflawni Statws Ecolegol Da (GeS), yn ogystal â GES.   | Mae cyfeiriad at GeS wedi'i ychwanegu at Amcan 8 (sydd bellach yn Amcan 9 yn yr WNMP).  |
| Amcan 9 yr WNMP                   | Dylai'r nod o gefnogi rhwydwaith MPA a reolir yn dda a phoblogaethau hyfyw o rywogaethau prin ac agored i niwed gael ei ychwanegu at Amcanion yr WNMP.        | Ehangwyd Amcan 9 (sydd bellach yn Amcan 10 yn yr WNMP) i ymgorffori'r nodau hyn.  |

| Adran            | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|------------------|---|--|
| Amcan 12 yr WNMP | Efallai na fydd angen yr amcan hwn mwyach gan ei fod yn ailadrodd yr egwyddorion a gwmpesir gan Amcan 1.  | Mae'r amcan hwn wedi'i ddileu.   |
| Amcanion WNMP    | Byddai esboniad cliriach yn y testun sy'n cyd-fynd â'r broses ar gyfer pennu Amcanion Morol Lefel Uchel y DU yn yr MPS yn rhoi cyd-destun i'r WNMP ac Amcanion yr WNMP. | Mae Atodiad 1 i'r WNMP wedi'i ddiwygio a'i ehangu i ddarparu'r cyd-destun hwn. |

**Tabl 3: Polisiâu Cyffredinol yr WNMP**

| Adran  | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|--|---|--|
| <b>Polisi Cyffredinol GEN – Polisi Cynllunio</b>                   |   |  |
| GEN_01 a GEN_02  | Mae disgrifio'r polisiâu hyn fel polisiâu cyffredinol yn rhoi gormod o bwyslais arnynt ac yn creu risg o greu hierarchaeth polisi. Nid yw datblygu cynaliadwy wedi'i ddiffinio yn naratif y polisi ac nid oes unrhyw gyfeiriad at yr egwyddor o gefnogi pob nod llesiant yn gyfartal.   | Nid yw'r polisiâu hyn yn cael eu disgrifio fel rhai cyffredinol mwyach. Ehangwyd naratif y polisi i ddarparu sylwebaeth bellach ar ddatblygu cynaliadwy a chymhwysu'r nodau llesiant yn fframwaith polisi'r WNMP.                |
| GEN_02   | Mae'r datganiad bod GEN_02 yn arbennig o berthnasol i sectorau sy'n cyfrannu at dwf economaidd yn peryglu aliniad yr WNMP â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.   | Mae'r datganiad hwn wedi'i ddileu.   |
| <b>Polisi Cyffredinol ECON – Cyflawni Economi Forol Gynaliadwy</b> |   |  |
| Twf Glas   | Dylid darparu diffiniad o Dwf Glas.   | Mae diffiniad ar gyfer Twf Glas, sy'n seiliedig ar ddiffiniad Llywodraeth Cymru o Dwf Gwyrdd, wedi'i gytuno gyda'r MPSRG ac wedi'i ymgorffori yn yr adran ECON – Cyflawni Economi Forol Gynaliadwy o'r WNMP.                     |
| Cyflwyniad i ECON – Cyflawni Economi Forol Gynaliadwy              | Dylai sectorau y nodwyd bod ganddynt potensial sylweddol ar gyfer twf cynaliadwy gynnwys gwyddoniaeth ac arloesi.   | Mae'r sector gwyddoniaeth ac arloesi wedi'i ychwanegu at y rhestr o sectorau sydd â photensial sylweddol ar gyfer twf cynaliadwy.  |
| Cyflwyniad i ECON – Cyflawni Economi Forol Gynaliadwy              | Dylid ychwanegu cyfeiriad at ddatblygu dealltwriaeth o fanteision economaidd posibl asedau hanesyddol.  | Mae'r testun wedi'i ehangu i ychwanegu'r cyfeiriad hwn.  |
| ECON_01  | Dylid newid y cyfeiriad at Dwf Glas i Economi Las Gynaliadwy.<br>Mae'r polisi yn canolbwyntio ar ddatblygu ar draul agweddau ehangach ar lesiant. Dylai'r cyfeiriad at SMNR fod yn fwy amlwg yng ngeiriad y polisi.<br>Nid yw hi'n glir sut y gallai arfarniad ystyried a yw gweithgarwch yn caniatáu i bobl fanteisio ar gyfoeth; mae hyn y tu allan i gwmpas yr WNMP. | Mae teitl y polisi wedi'i ddiwygio i "Twf Economaidd Cynaliadwy". Mae cyfrannu at SMNR bellach yn rhan amlycach o eiriad y polisi ac mae'r cyfeiriad at gynhyrchu cyfoeth a chaniatáu i bobl fanteisio ar gyfoeth wedi'i ddileu. |
| ECON_02  | Dylid dileu'r cyfeiriad yn y naratif ategol at fesurau rheoli MPA sy'n cydbwysu nwyddau a gwasanaethau ecosystem a thwf economaidd.   | Mae'r cyfeiriadau hyn wedi'u dileu.  |

| Adran  | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad   |
|--|---|---|
| ECON_02  | Gallai ECON_02 ei gwneud hi'n ofynnol hefyd i ymgeiswyr ddangos pa opsiynau y maent wedi'u hystyried a pha gamau y bwriadant eu cymryd i hyrwyddo cydfodolaeth â'r gweithgareddau presennol.  | Mae geiriad polisi ECON_02 wedi'i ddiwygio i ddatgan y dylai'r cynigion ddangos sut y maent wedi ystyried cyfleoedd i gydfodoli.  |
| <b>Polisi Cyffredinol SOC – Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach a Chyfiawn</b> |   |   |
| SOC_01   | Dylai'r polisi gydnabod y gall fod amgylchiadau lle bydd angen cyfyngu ar fynediad i'r amgylchedd morol ar sail iechyd a diogelwch.   | Mae'r polisi wedi'i aralleirio i annog mynediad i'r amgylchedd morol, yn hytrach na'i wneud yn ofynnol. Mae naratif y polisi yn datgan y dylid cefnogi mynediad lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.                                  |
| SOC_03   | Dylid diwygio geiriad y polisi i nodi y dylai cynigion ddangos sut y maent wedi lleihau eu risg o achosi neu gyfrannu at ddigwyddiadau llygredd.  | Diwygiwyd geiriad y polisi yn unol â hynny.   |
| Cyflwyniad i SOC_08 a SOC_09   | Mae'r WNMP yn cyfeirio at newid arfordirol fel proses naturiol, yn hytrach na phroses a allai hefyd ddeillio o ymyrraeth ddynol. Dylid egluro'r diffiniad hwn yn unol â hynny.  | Eglurwyd y diffiniad o newid arfordirol er mwyn nodi y gall ddeillio o newidiadau naturiol a ffisegol a wnaed gan ddyn.   |
| SOC_09   | Dylid rhannu'r polisi hwn yn ddau bolisi ar wahân er mwyn gwahaniaethu rhwng yr ystyriaethau gorfodol sy'n ymwneud â phrosesau arfordirol a llifogydd a'r anogaeth polisi i alinio â Chynlluniau Rheoli Traethlin perthnasol (SMPs).  | Mae'r polisi hwn wedi'i gadw fel un polisi ond wedi'i rannu'n ddwy ran, gan adlewyrchu'r gwahanol bwysiau a'r cyfeiriad polisi a gymhwysir at ystyriaethau gorfodol ac anogaeth polisi i gyd-fynd â'r SMPs.                           |
| SOC_11 a SOC_12  | Gan fod y ddau bolisi hyn yn ymwneud â'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, gellid eu cyfuno mewn un polisi. Efallai na fydd y gofyniad o dan SOC_12 i awdurdodau cyhoeddus gefnogi cyfleoedd i gynyddu cydnorthedd mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd bob amser yn briodol. | Mae'r polisïau hyn wedi'u cyfuno i greu un polisi SOC_11 estynedig. Mae geiriad y cymal sy'n deillio o bolisi drafft SOC_12 yr WNMP wedi'i ailffocysu ar annog cynigion sy'n cyfrannu at y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. |
| <b>Polisi Cyffredinol ENV – Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol</b>         |   |   |
| Cyflwyniad i ENV – Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol                      | Dylai'r naratif hwn gynnwys cyfeiriad at werth cynhenid yr amgylchedd morol.  | Ychwanegwyd cyfeiriad at werth cynhenid yr amgylchedd morol.  |
| Cyflwyniad i ENV_01  | Dylid ychwanegu cyfeiriad at OSPAR, o ran ei rôl fel cyfrwng ar gyfer cydweithredu ar ôl ymadael â'r UE, at y testun.   | Ychwanegwyd cyfeiriad at OSPAR.   |

| Adran  | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|--------|---|--|
| ENV_01 | <p>Croesewir y polisi hwn ond dylid cryfhau'r geiriad.</p> <p>Dylid cydnabod na fydd rhai cynigion, yn eu hanfod, yn cyfrannu at warchod, adfer neu wella ecosystemau.</p> <p>Awgrymir y dylai'r polisi ymgorffori gofynion i ystyried effeithiau andwyol a sut yr eir i'r afael â'r rhain.</p> | <p>Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i gyflwyno mesurau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ystyried a mynd i'r afael ag effeithiau andwyol, gyda gofyniad i gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol i fwrw ymlaen lle na ellir gwneud hyn. Mae'r polisi hefyd yn annog cynigion sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella ecosystemau morol.</p> |
| ENV_02 | <p>Dylai'r naratif ategol gyfeirio at y potensial am fwy o ddynodiadau MPA.</p>   | <p>Mae cyfeiriad at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddynodi MPAs pellach, fel sy'n briodol, bellach wedi'i gynnwys yn naratif y polisi.</p>  |
| ENV_02 | <p>Dylid darparu canllawiau ar ddynodi Parthau Cadwraeth Morol (MCZs) mewn SRAs yn y dyfodol.</p>   | <p>Mae eglurhad na fydd SRAs yn llesteirio'n ormodol ddynodiad MPAs er mwyn sicrhau cyfraniad priodol at rwydwaith MPA ystyrlon wedi'i ychwanegu at naratif y polisi.</p>  |
| ENV_02 | <p>Dylid cyfeirio o fewn y polisi at ddarpariaethau ar gyfer cynigion i fwrw ymlaen os oes rhesymau tra phwysig o fudd cyhoeddus (IROPI) neu o dan ddarpariaethau Adran 126(7) o'r MCAA.</p>  | <p>Mae'r cyfeiriad at IROPI eisoes wedi'i gynnwys yn naratif y polisi, ac mae cyfeiriad at ddarpariaethau Adran 126(7) o'r MCAA wedi'i ychwanegu.</p>  |
| ENV_03 | <p>Dylid diwygio'r geiriad i'w gwneud hi'n ofynnol i gynigion leihau'r perygl o gyflwyno rhywogaethau goresgynnol estron ac i gydnabod efallai na fydd rhai cynigion yn peryglu bioddiogelwch.</p>  | <p>Mae geiriad y polisi wedi'i ddiwygio i fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn ac i gydnabod y dylid cynnwys mesurau bioddiogelwch pan fo hynny'n briodol.</p>  |
| ENV_04 | <p>Gan fod cyflwyno sbwriel yn fwrriadol yn anghyfreithlon, dylid diwygio geiriad y polisi i ddatgan y dylai cynigion ddangos sut y byddant yn osgoi/lleihau'r angen i gyflwyno sbwriel.</p>  | <p>Mae geiriad y polisi wedi'i ddiwygio i'w gwneud hi'n ofynnol i gynigion ddangos sut y byddant yn osgoi/lleihau'r angen i gyflwyno sbwriel.</p>  |

| Adran   | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|---|---|--|
| <b>Polisi Cyffredinol GOV – Hyrwyddo Llywodraethu Da</b>                  |   |  |
| GOV_02  | <p>Nid oes polisi ar gydweithredu trawsffiniol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried Aberoedd afonydd Hafren a Dyfrdwy, sy'n perthyn i ardaloedd cynllunio morol Cymru a Lloegr.</p> <p>Mae angen cyfeiriad polisi gwell ar gydlyniant trawsffiniol â chynlluniau a phrosesau cynllunio eraill (gan gynnwys ffiniau tir/môr).</p> <p>Mae ffocws GOV_02 ar nodau llesiant yn dyblygu gofynion deddfwriaethol yn ddiangen.</p> | Mae GOV_02 wedi'i ail-ffocysu'n benodol ar gydnawsedd trawsffiniol a chydawnsedd cynlluniau, gan ddileu'r cyfeiriadau at nodau llesiant. |
| <b>Polisi Cyffredinol SCI – Defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn yn Gyfrifol</b> |   |  |
| SCI_01  | Dylid cynnwys y term 'gwneud penderfyniadau cymesur' yn SCI_01 i gyd-fynd â GEN_02.   | Ehangwyd geiriad y polisi i gynnwys dull cymesur o wneud penderfyniadau.   |

**Tabl 4: Ardaloedd Adnoddau Strategol**

| Adran                                      | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|--|--|--|
| Diben a rôl SRAs wrth wneud penderfyniadau | Mae rhywfaint o amwysedd o ran diffiniad a chymhwysiad SRAs wrth wneud penderfyniadau.   | Nid yw SRAs wedi'u cynnwys yn yr WNMP. Mae'r WNMP yn darparu ar gyfer cyflwyno SRAs yn y dyfodol trwy Hysbysiadau Cynllunio Morol (MPNs). Mae'r WNMP yn pennu statws MPNs wrth wneud penderfyniadau.   |
| SRAs, cynaliadwyedd a datblygu             | <p>Er y cefnogir yr egwyddor o sicrhau bod gan gynlluniau morol gyd-destun gofodol cryf, ymddengys fod SRAs yn blaenoriaethu twf economaidd dros gadwraeth bioamrywiaeth.</p> <p>Dylid darparu mwy o eglurder ynghylch y rhyngweithio rhwng MPAs ac SRAs, a dynodi MPAs mewn SRAs yn y dyfodol.</p> <p>Dylai'r broses o nodi SRAs ymgorffori ystyriaeth o gyfleoedd amgylcheddol, sensitifwydd a chyfyngiadau.</p> | <p>Mae'r cysylltiad rhwng SRAs a Pholisi Sector wedi cael ei ddileu. Mae'r cysyniad o SRAs wedi'i fireinio i ganolbwyntio ar nodi a chydabod pwysigrwydd adnoddau naturiol i sectorau penodol, gydag SRAs yn dod yn adnodd i gefnogi'r dull o reoli rhyngweithio sector-sector a llywio Polisi Diogelu Sector.</p> <p>Mae testun wedi'i ychwanegu i egluro'r berthynas rhwng SRAs ac MPAs ac yn cadarnhau, mewn perthynas ag MPAs, efallai na fydd rhai gweithgareddau dynol yn briodol. Mae eglurhad na fydd SRAs yn llesteirio'n ormodol ddynodiad MPAs er mwyn sicrhau cyfraniad priodol at rwydwaith MPA ystyrllon wedi'i ychwanegu at naratif y polisi.</p> <p>Mae'r WNMP yn nodi y bydd cyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol yn rhan o'r meini prawf i'w hystyried wrth ddatblygu SRAs.</p> |
| SRAs – sefydlu'r angen i fwrw ymlaen       | Dylai'r WNMP fod yn fwy penodol ynghylch yr angen i ddatblygu SRAs.  | Mae'r WNMP wedi'i ehangu i nodi meini prawf i'w hystyried wrth ddatblygu SRAs. Mae'r rhain yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag angen a budd y sector a chyfle technegol.   |
| Diffiniad yr SRA a thystiolaeth sylfaenol  | Ymddengys bod anghysondebau yn y ffordd y diffiniwyd SRAs, gyda diffyg rhesymeg a thystiolaeth sylfaenol i gefnogi'r diffiniad o ffiniau.  | Nid yw SRAs wedi'u cynnwys yn yr WNMP. Mae'r WNMP yn darparu ar gyfer cyflwyno SRAs trwy'r MPNs yn y dyfodol ac yn nodi meini prawf clir ar y dystiolaeth sylfaenol sydd ei hangen i ddiffinio SRAs.   |



| Adran   | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|---|--|--|
| SRAs – gorgyffwrdd a gwrthdaro â gweithgarwch arall | Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r gorgyffwrdd rhwng SRAs arfaethedig a gwrthdaro â defnyddiau eraill gofod morol. Mae potensial i SRAs weithredu fel rhwystrau i weithgarwch mewn sectorau eraill.                   | Mae'r cysyniad o SRAs wedi'i fireinio i ganolbwyntio ar nodi a chydabod pwysigrwydd adnoddau naturiol i sectorau penodol, gydag SRAs yn dod yn offer i gefnogi'r dull o reoli rhyngweithio sector-sector a llywio Polisi Diogelu Sector. Mae'r WNMP yn nodi'r angen i ystyried anghenion a'r effeithiau posibl ar sectorau eraill wrth ddatblygu SRAs.   |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu SRAs      | Mae'n bwysig sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu SRAs arfaethedig.  | Nid yw SRAs wedi'u cynnwys yn yr WNMP. Mae'r WNMP yn darparu ar gyfer cyflwyno SRAs trwy'r MPNs yn y dyfodol ac yn nodi y bydd cynigion ar gyfer SRAs yn destun ymgynghoriad.  |
| Adolygu SRAs  | Dylid ystyried dulliau o adolygu a mireinio SRAs.  | Mae'r WNMP yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio SRAs.  |
| SRAs Sector   | Gellid ystyried SRAs posibl ar gyfer ffermydd gwynt ar y môr a Thwristiaeth a Hamdden.<br><br>Gallai absenoldeb SRA Twristiaeth a Hamdden gael ei weld fel diffyg cydnabyddiaeth o bwysigrwydd strategol y sector. | Mae'r WNMP yn nodi gwynt ar y môr fel un o'r sectorau lle gellid ystyried y potensial i ddatblygu SRA.<br><br>Er nad yw'r WNMP yn cynnig asesiad o'r SRA Twristiaeth a Hamdden posibl, mae'n nodi'n benodol bod Twristiaeth a Hamdden yn flaenoriaeth ar gyfer cynllunio morol ac mae Amcan Cynllun sy'n cydnabod arwyddocâd twristiaeth a hamdden arfordirol i economi ac i lesiant wedi'i ychwanegu. |

**Tabl 5: Polisiâu Sector yr WNMP – Amcanion y Sector**

| Adran                               | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|-------------------------------------|--|--|
| Pob sector                          | Mae'r uchelgais i sicrhau'r twf mwyaf neu gyflawni twf sector cynaliadwy yn anghyson â'r nod o gyflawni datblygu cynaliadwy.   | Mae Polisiâu Sector a naratifau polisi cysylltiedig wedi'u hailffocysu ar gefnogi datblygu cynaliadwy yn lle sicrhau'r twf mwyaf neu geisio cyflawni twf cynaliadwy.   |
| Pob sector                          | Mae gwerth cynnwys adrannau ar gyfraniad economaidd sectorau unigol yn aneglur. Mae angen diweddarau llawer o'r dystiolaeth a'r ystadegau a ddyfynnir. Bydd cynnwys ffigurau o'r fath yn golygu bod yr adrannau hynny o'r WNMP yn darfod dros amser. | Mae tystiolaeth ac ystadegau penodol i ddyddiad a allai ddod i ben dros oes yr WNMP (gan gynnwys data ar gyfraniad economaidd sectorau unigol) wedi'u dileu.   |
| Pob sector                          | Nid yw ystyr y symbolau sy'n cyd-fynd ag Amcanion y Sector yn glir.  | Mae allwedd i'r symbolau wedi'i darparu.   |
| Dyframaeth a Thwristiaeth a Hamdden | Cwestiynwyd cynnwys targedau twf sector penodol a tharddiad y targedau twf hyn. Teimlwyd bod y targedau twf yn peri'r risg o flaenoriaethu twf y sector mewn modd anghymesur dros ystyriaethau eraill.   | Mae targedau twf penodol wedi'u dileu ac mae Amcanion y Sector ar gyfer Dyframaeth a Thwristiaeth a Hamdden wedi'u hailffocysu ar ddatblygu cynaliadwy.  |
| Agregau                             | Nid yw'r diffiniad o agregau yn glir.  | Mae'r diffiniad wedi'i ddiwygio a'i egluro.  |
| Dyframaeth                          | Gallai'r targed ar gyfer cynyddu cynhyrchiant dyframaeth arwain at ddyframaeth yn gwrthdaro â'r diwydiant cychod hamdden.  | Mae targedau twf penodol wedi'u dileu o'r WNMP. Mae Polisiâu Diogelu'r WNMP yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â gwrthdaro posibl rhwng gwahanol ddefnyddiau.  |
| Ynni – carbon Isel                  | Gellid cynnwys cyfeiriad yn y naratif at y targed i Gymru gynhyrchu 70% o'r trydan y mae'n ei ddefnyddio o ynni adnewyddadwy erbyn 2030.   | Mae cyfeiriad penodol at y targed hwn wedi'i ymgorffori yn y naratif.  |
| Olew a Nwy                          | Dylai Amcan y Sector gael ei aralleirio er mwyn cydnabod, er bod nwy yn bwysig yn y cyfnod pontio carbon isel, ei fod yn annhebygol o fod yn ffynhonnell ynni tymor hir heb fesurau i liniaru'r effeithiau amgylcheddol.                             | Mae Amcan y Sector wedi'i ailffocysu ar sicrhau'r adferiad cynaliadwy mwyaf posibl o olew a nwy, gyda'r naratif sylfaenol yn nodi'r ddibyniaeth barhaus ar olew a nwy wrth gynnal diogelwch ynni'r DU gan danlinellu pwysigrwydd lliniaru effeithiau amgylcheddol. Mae'r naratif sylfaenol wedi'i ehangu hefyd i nodi nod polisi Llywodraeth Cymru i osgoi parhau i gloddio am danwydd ffosil mewn ardaloedd o dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru. |

| Adran                    | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad   |
|--------------------------|---|---|
| Pysgodfeydd              | Dylid diwygio geiriad Amcan y Sector a'r naratif cysylltiedig i sicrhau bod cynaliadwyedd wrth wraidd y testun, gyda mwy o gydnabyddiaeth o bwysigrwydd defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal cydnerthed ecosystemau morol. | Diwygiwyd y geiriad i gyfeirio at sector pysgota cynaliadwy, amrywiol a phroffidiol, gyda mwy o bwyslais ar gydnerthed ecosystemau. |
| Porthladdoedd a Morgludo | Dylai Amcan y Sector ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy yn hytrach nag eirioli twf sector cynaliadwy.   | Mae Amcan y Sector bellach yn nodi'r nod o gefnogi datblygu cynaliadwy yn y sector.   |

**Tabl 6: Polisiâu Sector yr WNMP – Polisi Ategol**

| Adran                  | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|------------------------|--|--|
| <b>Polisiâu Sector</b> |  |  |
| Pob sector             | <p>Prin yw'r dystiolaeth bod egwyddor SMNR yn cael ei chymhwyso o fewn y Polisiâu Sector.</p> <p>Mae datblygu economaidd yn frainc uwch na gwarchod ecosystemau morol ac SMNR.</p> <p>Dylid ail-eirio Polisiâu Sector i ddarparu cymorth polisi, yn amodol ar y cafeat bod cynigion yn cydymffurfio â Pholisiâu Cyffredinol yr WNMP.</p> | <p>Mae geiriad Polisiâu Ategol Sector wedi'i ddiwygio i ddatgan yn glir y dylai'r cynigion gydymffurfio â'r Polisiâu Cyffredinol perthnasol, gan gynnwys y polisiâu ENV ar Fyw o fewn Terfynau Amgylcheddol.</p> <p>Mae polisiâu a naratifau polisi wedi'u hailffocysu o gefnogi twf y sector neu sicrhau'r twf mwyaf i gefnogi datblygu cynaliadwy, gyda thargedau twf sector penodol wedi'u dileu.</p> <p>Mae'r cysylltiad rhwng Polisi Ategol Sector ac SRAs wedi'i ddileu, gydag SRAs wedi'u hailffocysu ar ddiogelu defnydd posibl o adnoddau yn y dyfodol.</p> |
| Agregau ac Olew a Nwy  | <p>Nid yw Polisiâu Ategol ar gyfer Agregau ac Olew a Nwy yn cydnabod mai adnoddau naturiol cyfyngedig ac anadnewyddwy yw'r rhain.</p>  | <p>Mae naratif y polisi ar gyfer Agregau yn cynnwys cydnabyddiaeth mai adnoddau naturiol cyfyngedig yw'r rhain, ac y dylid eu rheoli'n gynaliadwy. Mae Polisi Olew a Nwy ar gyfer yr ardaloedd o dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru wedi'i ddiwygio i adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru i osgoi parhau i gloddio tanwydd ffosil.</p>   |
| Agregau                | <p>Nid yw'r Polisi Ategol o reidrwydd yn gyson â'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy.</p>  | <p>Mae'r WNMP yn cydnabod rôl hanfodol agregau morol at ddibenion datblygu economaidd, ac yn cydnabod bod angen rheoli echdynnu'n ofalus a darparu ar gyfer pennu terfynau tunelledd. Mae'r Polisi Agregau wedi'i ddiwygio i gynnwys y gofyniad i gynigion gydymffurfio â Pholisiâu Cyffredinol yr WNMP, gan gynnwys polisiâu ENV - Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol. Mae geiriad naratif y polisi wedi cael ei drafod gyda CNC er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol o ffactorau economaidd ac amgylcheddol.</p>   |
| Agregau                | <p>Cwestiynu'r rhesymeg dros drwyddedau echdynnu agregau tymor byrrach mewn ardaloedd newydd neu sensitif.</p>   | <p>Cadwyd trwyddedau tymor byrrach fel y dull polisi safonol ond mae'r geiriad wedi'i ddiwygio i ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer trwyddedau tymor hwy os oes cyfiawnhad dros hynny.</p>  |

| Adran             | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad   |
|-------------------|---|---|
| Agregau           | Mae'n anodd deall pam mae'r Polisi Carthu Agregau Morol Dros Dro (iMADP) yn cael ei dynnu'n ôl, ond eto mae'r WNMP drafft yn ei nodi fel ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau.                              | Mae'r geiriad wedi'i ddiwygio i adlewyrchu, er bod yr iMADP yn cael ei dynnu'n ôl adeg mabwysiadu'r WNMP, bod polisïau'r WNMP yn deillio'n rhannol o sylfaen dystiolaeth a dulliau polisi iMADP, felly bydd ei gynnwys yn parhau i fod yn bwynt perthnasol i gyfeirio ato.  |
| Dyframaeth        | Dylid cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod modd cyflawni cynigion ar gyfer datblygiadau'r dyfodol mewn ffordd gynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y targed twf penodol ar gyfer dyframaeth.     | Dilëwyd y targed twf penodol ac ailffocyswyd naratif y polisi ar gefnogi datblygiad sector cynaliadwy. Mae geiriad y Polisi Ategol wedi'i ddiwygio i nodi'n glir y dylai'r cynigion gydymffurfio â Pholisïau Cyffredinol WNMP, gan gynnwys polisïau ENV – Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol.   |
| Dyframaeth        | Wrth gysylltu'r Polisi Ategol ag SRAs, mae diffyg eglurder ynghylch y dull polisi o ymdrin â chynigion y tu allan i'r meysydd hyn.  | Mae'r cysylltiad rhwng y Polisi Sector ac SRAs wedi'i ddileu; mae'r Polisi Ategol bellach ar gyfer Cymru gyfan heb unrhyw ffocws gofodol penodol.   |
| Carthu a Gwaredu  | Ni ddylai'r naratif ar sicrhau bod mynychder dadansoddi gwaddodion yn cydymffurfio â gofynion OSPAR gael ei gysylltu ag amodau'r drwydded, gan y byddai hyn yn awgrymu rhagdybiaeth o drwyddedau tymor hwy. | Mae'r cysylltiad ag amodau'r drwydded wedi'i ddileu.  |
| Ynni – Olew a Nwy | Nid yw'r Polisi Ategol yn cyd-fynd ag Amcanion a Pholisïau Cyffredinol yr WNMP na'r nodau o drosglwyddo i economi carbon isel a lleihau allyriadau carbon.  | Mae'r Polisi Ategol ar gyfer ardaloedd o dan awdurdodaeth Llywodraeth y DU (polisi a gedwir) bellach yn canolbwyntio ar sicrhau'r adferiad economaidd mwyaf posibl ac yn nodi y dylai cynigion gydymffurfio â Pholisïau Cyffredinol perthnasol yr WNMP, gan gynnwys polisïau ENV ar Fyw o fewn Terfynau Amgylcheddol. Mae'r Polisi Ategol bellach wedi'i ymgorffori ar gyfer ardaloedd o dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru i osgoi parhau i gloddio tanwyddau ffosil. |
| Ynni – Olew a Nwy | Nid yw hi'n glir a yw polisi Olew a Nwy hefyd yn cynnwys nwy siâl, methan gwely glo neu nweiddio glo tanddaearol.   | Mae'r diffiniad o Olew a Nwy wedi'i ddiwygio i ddatgan ei fod yn cynnwys adnoddau olew a nwy, gan gynnwys nwy siâl, methan gwely glo a nweiddio glo tanddaearol. Mae cyfeiriad polisi penodol wedi'i ychwanegu mewn perthynas â methan gwely glo, nwy siâl a nweiddio glo tanddaearol mewn ardaloedd o dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru.  |

| Adran              | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Y newid a wnaed o ganlyniad  |
|--------------------|---|--|
| Ynni – Olew a Nwy  | Gall chwilio ac echdynnu olew a nwy gael effeithiau sŵn tanddwr sylweddol posibl, a dylid cyfeirio at hynny.  | Mae geiriad y Polisi Ategol wedi'i ddiwygio i ddatgan y dylai'r cynigion gydymffurfio â Pholisïau Cyffredinol perthnasol yr WNMP, gan gynnwys polisïau ENV ar Fyw o fewn Terfynau Amgylcheddol (mae polisi ENV_05 yn ymwneud â sŵn tanddwr).   |
| Ynni – Carbon Isel | Mae'n peri cryn bryder bod polisi morlyn llanw yn cael ei gyflwyno trwy achos IROPI ac yn mynegi cefnogaeth i ddatblygiad ar raddfa fawr sy'n debygol o arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd Safle(oedd) Ewropeaidd y gallai iawndal llwyddiannus fod yn her iddynt. Ni ddylid dirprwyo'r ystyriaeth o'r cyfryw effeithiau i arfarniadau lefel prosiect. Byddai dull cynllunio ac asesu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ffordd fwy priodol ymlaen. | Adolygwyd polisi morlyn llanw ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol a CNC ac fe'i mireiniwyd i ganolbwyntio ar ddull cam wrth gam i gefnogi'r sector, gan gynnwys ymagwedd strategol, seiliedig ar dystiolaeth i ganiatáu gwell dealltwriaeth o gyfleoedd yn y dyfodol. Nid yw'r polisi diwygiedig yn cael ei ddwyn ymlaen o dan IROPI mwyach.  |
| Ynni – Carbon Isel | Dylai'r WNMP roi mwy o ystyriaeth i effeithiau trawsffiniol a chronnol tebygol y seilwaith morlyn ar raddfa fawr. Dylai gydnabod hefyd bwysigrwydd dulliau cynllunio a llywodraethu strategol priodol i fynd i'r afael â materion trawsffiniol o'r fath.  | Mae'r polisi diwygiedig ar gyfer morlyn llanw yn canolbwyntio ar ddull strategol, seiliedig ar dystiolaeth, gyda chydabyddiaeth yn naratif y polisi na ellir diystyru effeithiau mewn ardaloedd cynllun morol cyfagos ar lefel cynllun a heb ymchwil bellach. Mae naratif y polisi yn cydnabod hefyd yr angen am gynllunio strategol sy'n cynnwys ystyriaethau trawsffiniol.<br><br>Mae naratif y polisi yn cydnabod y byddai unrhyw brosiect morlyn ar raddfa fawr yn cael ei bennu fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, felly efallai y byddai'n elwa ar Ddatganiad Polisi Cenedlaethol y DU. |
| Ynni – Carbon Isel | Ymddengys nad oes uchelgais o ran y polisi ar gyfer ynni gwynt ar y môr; nid oes sôn am botensial technoleg gwynt sy'n arnofio.   | Mae Polisi Ategol ar gyfer ynni gwynt ar y môr yn nodi cyfleoedd da ar gyfer datblygiadau pellach ar y môr ac yn cynnwys cymorth i ddeall cyfleoedd i ddatblygu'r sector, gan gynnwys technoleg gwynt sy'n arnofio.  |

| Adran              | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Y newid a wnaed o ganlyniad   |
|--------------------|--|---|
| Ynni – Carbon Isel | Ymddengys fod polisi ELC_01 yn cynnwys sawl polisi gwahanol ac unigryw, sy'n golygu nad yw hi'n glir sut y gall ymgeiswyr ddangos eu bod yn cydymffurfio. Mae rhywfaint o ddyblygu hefyd rhwng gwahanol gymalau'r polisi.  | Mae polisi ELC_01 wedi'i ailstrwythuro'n bedwar polisi penodol, un ar gyfer pob is-sector ynni adnewyddadwy morol (gwynt ar y môr, tonnau, ffrwd llanw, morlyn llanw).  |
| Ynni – Carbon Isel | Nid yw'r polisi yn cyfeirio at dargedau perchnogaeth lleol sy'n ymwneud â chynhyrchu ynni.   | Mae'r cyfeiriad at y targed perchnogaeth lleol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy wedi'i ychwanegu at naratif y polisi.  |
| Ynni – Carbon Isel | <p>Mae angen eglurhad ar y rhesymeg dros beidio â datblygu SRA ar gyfer ynni gwynt ar y môr.</p> <p>Mae annog polisi ar gyfer datblygiadau mewn SRAs ynni'r tonnau a'r llanw (ac yn enwedig SRAs ar gyfer amrediad llanw) yn peri pryder gan nad yw'n ymddangos bod y polisi yn mynd i'r afael ag effeithiau posibl ar safleoedd a rhywogaethau gwarchoddedig ac nid oes tystiolaeth sylfaenol ar gael o ran cyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol. Gall yr SRA ar gyfer amrediad llanw wrthdaro â'r diwydiant cychod hamdden.</p> <p>Nid yw hi'n glir pam mae ELC_01 yn annog datblygu rhagor o dystiolaeth a chymorth strategol ar gyfer technoleg sefydledig ynni gwynt ar y môr (na chynigir SRA ar ei gyfer) pan nad oes cymorth polisi cyfatebol i ddatblygu tystiolaeth bellach mewn perthynas ag ynni'r tonnau a morlyn llanw.</p> | <p>Nid yw SRAs wedi'u cynnwys yn yr WNMP. Mae'r WNMP yn darparu ar gyfer cyflwyno SRAs trwy MPNs yn y dyfodol lle gellir cyfiawnhau hynny a lle mae'r sail dystiolaeth yn ddigonol. Mae'r WNMP yn nodi y gellir ystyried datblygu SRAs ar gyfer pob is-sector ELC, gan gynnwys gwynt ar y môr.</p> <p>Dilëwyd y cysylltiad rhwng SRAs a Pholisi Ategol Sector ac mae SRAs wedi'u mireinio i ganolbwyntio ar nodi adnoddau sydd o bwys i sectorau penodol, gydag SRAs yn dod yn offer i gefnogi Polisi Diogelu Sector.</p> |
| Ynni – Carbon Isel | Dylid dileu'r gofyniad i awdurdodau cyhoeddus ddarparu tystiolaeth berthnasol sydd ar gael yn eang o eiriad polisi ELC_01 oherwydd materion posibl yn ymwneud â chyfrinachedd data a gallu technolegol.  | Caiff yr anogaeth polisi i gydweithredu er mwyn datblygu'r sail dystiolaeth ei chadw yng ngeiriad y polisi, ond mae'r cymal ar argaeledd tystiolaeth wedi'i gadw mewn cafeatau gyda'r term 'lle mae'n briodol gwneud hynny', i gydnabod y pryderon hyn.   |
| Pysgodfeydd        | Dylai naratif y polisi sy'n hyrwyddo manteisio ar rywogaethau sy'n cael eu tanddefnyddio gael ei gynnwys mewn cafeatau gyda'r angen i asesu cynaliadwyedd cynigion o'r fath.   | Ychwanegwyd cafeat y byddai cyfleoedd i fanteisio ar rywogaethau sy'n cael eu tanddefnyddio yn cael eu defnyddio lle mae poblogaethau'n ddigon cydnerth i allu cynnal mwy o fanteisio.  |

| Adran                    | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Y newid a wnaed o ganlyniad   |
|--------------------------|--|---|
| Pysgodfeydd              | Dylid cydnabod pwysigrwydd lleihau effeithiau ar rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu, a dylid ystyried absenoldeb cynigion i leihau sgil-ddalfa, gyda chefnogaeth i gyflawni'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY) i bob rhywogaeth.  | Mae naratif y polisi wedi ymgorffori cymorth ar gyfer cynigion sy'n parchu egwyddorion MSY ac yn lleihau'r sgil-ddalfa a'r effeithiau andwyol ar rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu.  |
| Porthladdoedd a Morgludo | Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i Bolisiau Cyffredinol yr WNMP, gan gynnwys polisiau ENV ar Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol.  | Mae geiriad y Polisi Ategol wedi'i ddiwygio i ddatgan yn glir y dylai cynigion gydymffurfio â Pholisiau Cyffredinol yr WNMP, gan gynnwys polisiau ENV ar Byw o fewn Terfynau Amgylchedd.  |
| Porthladdoedd a Morgludo | Wrth gysylltu'r Polisi Ategol ag SRAs, mae diffyg eglurder ynghylch y dull polisi o ymdrin â chynigion y tu allan i'r meysydd hyn, ac ynghylch sut mae'r meysydd hyn yn rhyngweithio â dynodiadau eraill. Nid yw hi'n glir pam nad yw pob ardal harbwr statudol wedi'u cynnwys yn yr SRAs arfaethedig. | Nid yw SRAs wedi'u cynnwys yn yr WNMP. Mae'r WNMP yn darparu ar gyfer cyflwyno SRAs trwy'r MPNs yn y dyfodol. Mae'r cysylltiad rhwng Polisi Sector ac SRAs wedi'i ddileu; mae'r Polisi Ategol bellach ar gyfer Cymru gyfan heb unrhyw ffocws gofodol penodol ac mae SRAs wedi'u mireinio i ddod yn offer i gefnogi Polisi Diogelu Sector. |
| Porthladdoedd a Morgludo | Oherwydd y risg y gallai arallgyfeirio porthladdoedd arwain at ddadleoli gweithgarwch presennol, gellid dileu'r polisi ar arallgyfeirio o P&S_02 a'i gwmpasu mewn polisi ar wahân.   | Mae'r Polisi Ategol sydd wedi'i ailddrafftio yn cynnwys gofyniad i gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Cyffredin, sy'n diogelu rhag dadleoli gweithgarwch presennol yn annerbyniol.   |
| Ceblau o dan y môr       | Mewn perthynas â chladdu ceblau, dylid ychwanegu nodyn bod angen ystyried natur y gweithgarwch mewn perthynas â chladdu ceblau yng ngoleuni arferion morwrol darbodus a chyfraith genedlaethol a rhyngwladol.  | Ychwanegwyd geiriad at naratif y polisi i adlewyrchu hyn.   |
| Twristiaeth a Hamdden    | Dylai'r WNMP annog mesurau amddiffyn yr arfordir i hyrwyddo gwelliannau twristiaeth a hamdden.   | Mae'r egwyddor polisi o annog cydfodolaeth a rhannu cyfleusterau a seilwaith wedi'i hychwanegu at naratif y polisi.   |
| Twristiaeth a Hamdden    | Ymddengys bod y Polisi Twristiaeth a Hamdden yn gymharol wan, gyda diffyg eglurder o ran natur amcanion polisi'r Llywodraeth. Dylid adolygu'r polisi i fod yn gyson â geiriad y Polisi Ategol ar gyfer sectorau eraill.  | Mae'r Polisi Ategol wedi'i aralleirio i fod yn gyson â'r Polisiau Ategol ar gyfer sectorau eraill, gyda naratif polisi clir yn amlygu blaenoriaethau polisi. Ychwanegwyd geiriad sy'n cyfeirio at ffocws y polisi ar gyfer datblygu'r sector, fel y'i nodir yn Amcan y Sector.  |



**Tabl 7: Polisiâu Sector yr WNMP – Polisi Diogelu**

| Adran                        | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Gwnaed y newid a ddeilliodd  |
|------------------------------|---|--|
| Polisi Diogelu               | Er eglurder, dylai'r gofyniad i ddarparu achos clir ac argyhoeddiadol fod yn berthnasol hefyd i'r prawf amgylchiadau eithriadol, yn hytrach na dim ond cyflwyno achos i symud ymlaen.   | Mae'r gofyniad i gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol wedi'i ychwanegu at y cyfiawnhad dros amgylchiadau eithriadol.  |
| Pob un, ac eithrio Amddiffyn | Mae'r WNMP drafft yn un hir iawn, a byddai'n elwa ar symleiddio er mwyn hwyluso defnyddioldeb. Mae naratifau polisi sy'n gysylltiedig â Pholisiâu Sector yn llawer hwy na'r rhai ar gyfer Polisiâu Cyffredinol. Ceir rhai anghysondebau o ran geiriad rhwng gwahanol Bolisiâu Diogelu Sector. | Disodlwyd Polisiâu Diogelu Sector unigol (ar gyfer sectorau ac eithrio Amddiffyn) gan Bolisi Diogelu Cyffredin, polisi symleiddio a mynd i'r afael ag unrhyw anghysonderau o ran geiriad.  |
| Agregau                      | Mae anghysondeb yn y lefelau diogelu a gymhwysir at wahanol ardaloedd (e.e. ardaloedd trwyddedig neu archwilio) ac nid oes digon o arlliw o fewn geiriad y polisi i adlewyrchu'r lefelau ymrwymiad/risg i'r diwydiant.  | Mae'r Polisi Diogelu Cyffredin yn sefydlu polisiâu diogelu traws-sector cyffredin a chyson, gan wahaniaethu rhwng defnydd presennol a defnydd posibl yn y dyfodol a chymhwyso lefelau priodol o ddiogelu yn y ddau achos, gan adlewyrchu'r lefelau risg a buddsoddiad yr ymrwymwyd iddynt. |
| Pysgodfeydd                  | Nid yw hi'n glir a yw FIS_03 yn canolbwyntio ar weithgarwch pysgota neu rywogaethau/cynefinoedd.  | Er mwyn egluro ffocws y polisi ar ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau pysgod allweddol, mae'r polisi hwn wedi'i drosglwyddo i'r adran ENV – Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol, fel polisi ENV_07.   |
| Porthladdoedd a Morgludo     | Dylai P&S_03 ymdrin â chyfleusterau trwsio llong, arolygu ac ailgylchu.   | Mae P&S_03 wedi'i ddisodli gan y Polisi Diogelu Cyffredin. Nid yw naratif y polisi yn cyfeirio at SRAs mwyach ond maent yn cyfeirio at gymhwyso'r polisi hwn i borthladdoedd, harbws a marinas presennol.  |
| Ceblau o dan y môr           | Dylid ychwanegu eglurhad at CAB_02 ynglŷn â cheblau sy'n mynd trwy ddyfroedd Cymru sy'n cysylltu â thir Lloegr.   | Mae geiriad ychwanegol wedi'i ychwanegu at naratif y polisi i egluro sut y mae'n cael ei ddefnyddio ar geblau sy'n mynd trwy ddyfroedd Cymru a chysylltu â thir Lloegr.  |
| Twristiaeth a Hamdden        | Dylai T&R_02 warchod hefyd rhag effeithiau andwyol sylweddol ar amcanion twristiaeth a hamdden Llywodraeth y DU ar gyfer ardaloedd morol Lloegr.  | Mae T&R_02 wedi'i ddisodli gan y Polisi Diogelu Cyffredin. Mae naratif y polisi ar gyfer y Polisi Twristiaeth a Hamdden wedi'i ddiwygio i dynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â chydgylltu trawsffiniol a darpariaethau GOV_02 ar gydlyniant trawsffiniol.                                 |

## Dim newidiadau yn ôl adran

17. Mae'r adran hon yn crynhoi achosion lle, ar ôl ystyried sylwadau'r ymgynghoriad yn ofalus, na wnaed unrhyw newidiadau. Ym mhob achos, mae'r rhesymeg dros y penderfyniad hwn wedi'i nodi.

**Tabl 8: Materion Cyffredinol**

| <b>Mater</b>                     | <b>Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid</b>   | <b>Rheswm dros beidio â newid</b>  |
|----------------------------------|--|--|
| Enillion Net a Chyfalaf Naturiol | Byddai'n fuddiol i'r WNMP gyfeirio at egwyddorion Enillion Net a Chyfalaf Naturiol.  | Mae hwn yn faes polisi cynnar sy'n datblygu, gyda defnydd ymarferol cyfyngedig ar hyn o bryd i lywio arfer. Felly, byddai monitro ac adrodd ar bolisi o'r fath ar hyn o bryd yn heriol. Am y rhesymau hyn, nid yw'n ymddangos ei bod yn briodol cynnwys polisi o'r fath ar hyn o bryd.   |
| Terfynau twf                     | Dylai'r WNMP integreiddio terfynau i dwf er mwyn atal gorfanteisio ar adnoddau naturiol.   | Gall deall a phennu terfynau amgylcheddol ar gyfer defnydd cynaliadwy fod yn her, ac efallai na fydd yn fesur polisi priodol ym mhob achos. Mae ystod eang o fesurau rheoleiddio a pholisi ar waith i reoli effeithiau amgylcheddol o fewn terfynau derbyniol, gan helpu i lywio datblygu cynaliadwy. Mewn rhai achosion, lle mae tystiolaeth dda ar gael a lle mae gwerth mewn pennu terfynau strategol trwy gynllunio morol, efallai y bydd yn briodol gwneud hynny, er enghraifft, ar gyfer echdynnu agregau morol oddi ar arfordir y De. |
| Casglu tystiolaeth forol         | Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ac ymrwymo i raglen waith ymchwil a chasglu tystiolaeth forol, gan gynnwys edrych ar sut y bydd egwyddorion SMNR a dull ecosystem yn cael eu cymhwyso mewn fersiynau o'r WNMP yn y dyfodol a datblygu dealltwriaeth o leoliad, iechyd a gwerth nwyddau a gwasanaethau ecosystemau morol. | Mae ymchwil a rhaglen waith casglu tystiolaeth forol y tu allan i gwmpas uniongyrchol polisi'r WNMP, ond mae diweddariad i Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r WNMP. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd tystiolaeth fel sail i'r broses o wneud penderfyniadau ac mae wrthi'n datblygu Strategaeth Tystiolaeth Forol a Physgodfeydd ar hyn o bryd. Mae gwaith penodol yn cael ei ddatblygu hefyd mewn perthynas â deall, ar lefel strategol, gyfleoedd a chyfyngiadau.                             |

| Mater                       | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Rheswm dros beidio â newid   |
|-----------------------------|---|--|
| SRAs                        | Cwestiynwyd y rheswm dros beidio â chynnig SRAs ar gyfer cyfalaf naturiol/ cydnerthedd ecosystemau, neu ar gyfer llesiant cymdeithasol.   | Lle bo'n briodol, bydd SRAs yn nodi a chydabod adnoddau naturiol sydd o bwys i rai sectorau morol. Mae SRAs yn offeryn i wella'r gwaith o reoli gweithgareddau morol, cefnogi'r gwaith o reoli'r rhyngweithio sector-sector a llywio Polisi Diogelu Sector.  |
| Cydlynu polisi              | Nid yw'r WNMP yn darparu polisiâu na chanllawiau i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau pan fo gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddwyr neu fuddiannau.                                   | Mae'r WNMP yn nodi'r fframwaith o egwyddorion polisi sydd i'w ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau. Fel gydag arferion cynllunio tir, caiff penderfyniadau ar wrthdaro posibl rhwng gwahanol ddefnyddwyr neu fuddiannau eu gwneud ar sail achosion unigol, yn ôl disgrisiwn y penderfynwyr.                  |
| Cymesuredd a lefelau bandio | Nid yw bandio cynigion i lywio'r lefelau tystiolaeth sydd eu hangen i wneud penderfyniadau yn ddefnyddiol. Dylid darparu enghreifftiau o'r mathau o ddatblygiadau sy'n dod o fewn pob band. | Ystyrir yn eang bod y dull hwn yn ddefnyddiol, yn enwedig o ran dull <b>de minimis</b> ar gyfer cymwysiadau llai o faint (ac fe'i defnyddir eisoes ar gyfer penderfyniadau trwyddedu morol CNC). Nid yw'n ymarferol i ddiffinio pob opsiwn bandio ar gyfer pob Awdurdod Cyhoeddus perthnasol o fewn yr WNMP. |
| GES                         | Mae angen i'r WNMP adlewyrchu statws cadwraeth anffafriol a thargedau GES ar gyfer 2020, sy'n annhebygol o gael eu bodloni.   | Mae'r WNMP yn cynnwys a chefnogi targedau GES. Byddai cynnwys manylion penodol, er enghraifft, statws cadwraeth, yn dyddio'r cynllun yn ddiangen ac yn amhriodol ar gyfer cynllun strategol â phersbectif 20 mlynedd.  |

**Tabl 9: Gweledigaeth ac Amcanion yr WNMP**

| Adran                | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Rheswm dros beidio â newid   |
|----------------------|--|--|
| Gweledigaeth yr WNMP | Dylid defnyddio'r term 'Datblygu Cynaliadwy' yn lle 'Twf Glas'.<br>Dylai Gweledigaeth yr WNMP ddiffinio'r term Twf Glas yn glir.   | Mae'r term Datblygu Cynaliadwy wedi'i ddefnyddio'n gyson ar draws yr WNMP. Cytunwyd gyda'r MPSRG ar ddiffiniad o Dwf Glas, sy'n seiliedig ar ddiffiniad Llywodraeth Cymru o Dwf Gwyrdd ac yn nodi'n glir y manteision o ran tegwch cymdeithasol a buddiannau amgylcheddol, ac mae wedi'i gynnwys yn yr adran ECON – Cyflawni Economi Forol Gynaliadwy. |
| Gweledigaeth yr WNMP | Dylai Gweledigaeth yr WNMP gyfeirio at gyflwr presennol moroedd Cymru a'r targed i gyflawni GES a gwarchod ac adfer bioamrywiaeth.   | Mae'r WNMP yn ymgorffori a chefnogi targedau GES. Byddai cynnwys manylion penodol, er enghraifft, statws cadwraeth, yn dyddio'r cynllun yn ddiangen ac yn amhriodol ar gyfer cynllun strategol â phersbectif 20 mlynedd.   |
| Gweledigaeth yr WNMP | Dylai Gweledigaeth yr WNMP gynnwys cyfeiriad at barchu terfynau amgylcheddol.  | Mae Gweledigaeth yr WNMP yn darparu datganiad lefel uchel ac yn cynnwys cyfeiriad at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy ddull ecosystem. Ni fyddai penodolrwydd pellach ar fesurau penodol sy'n sail i'r dull hwn yn briodol yn y weledigaeth lefel uchel o gynllun strategol sydd â phersbectif 20 mlynedd.                                   |
| Gweledigaeth yr WNMP | Dylai Gweledigaeth yr WNMP annog arweinyddiaeth leol.  | Mae Gweledigaeth yr WNMP yn darparu datganiad lefel uchel sy'n ymwneud â phob lefel o reolaeth forol. Mae'n cynnwys cyfeiriad at y dull ecosystem sy'n cynnwys yr angen i weithredu ar y raddfa briodol a hefyd y dylai'r rheolwyr gynnwys yr holl rhanddeiliaid a buddiannau lleol.   |
| Amcanion yr WNMP     | Dylid darparu mwy o eglurder ar ganlyniadau dymunol Amcanion yr WNMP a sut y caiff y rhain eu cyflawni a'u monitro.  | Mae'r materion hyn yn cael eu cwmpasu gan Fframwaith Monitro ac Adrodd ar wahân, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r WNMP.   |
| Amcanion yr WNMP     | Nid yw amcanion (o ddrafftiau cynharach yr WNMP) i gefnogi prosesau penderfynu integredig ar draws y rhyngwyneb tir-môr a chydabod yr angen am ymgysylltu ystyrlon wedi'u cynnwys. | Roedd llawer o rhanddeiliaid eisiau gweld cynllun byrrach gyda ffocws clir. Mae ystyriaethau sy'n ymwneud ag integreiddio ar draws y rhyngwyneb tir-môr wedi'u hintegreiddio ledled yr WNMP. Mae'r dull ecosystem ac SMNR yn gofyn am ddull mwy cyfannol a systemau o gyflawni ac mae'r rhain wedi'u gwreiddio ledled yr WNMP.                         |

| Adran           | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Rheswm dros beidio â newid  |
|-----------------|---|---|
| Amcan 1 yr WNMP | Mae'r amcan ond yn cyfeirio at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddai'n ddymunol pe bai'n cyfeirio hefyd at sicrhau bod asedau treftadaeth yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy. | Mae Amcan 6 yr WNMP (sydd bellach yn Amcan 7 yn yr WNMP) yn ymwneud â gwarchod a hyrwyddo asedau treftadaeth a hanesyddol.  |
| Amcan 1 yr WNMP | Dylid diwygio'r geiriad o 'ystyried' i 'cymryd camau i leihau' effeithiau cronol.   | Byddai hyn yn methu â chydabod y potensial ar gyfer effeithiau cronol cadarnhaol.   |
| Amcan 1 yr WNMP | Dylid diwygio'r geiriad i ganolbwyntio'n llwyr ar SMNR a'r dull ecosystem.  | Byddai'r dull hwn yn colli'r ffocws ar y nodau llesiant, sy'n rhan annatod o Amcan 1.   |
| Amcan 3 yr WNMP | Cwestiynwyd y rhesymeg dros gael amcan penodol ar gyfer gwynt ar y môr ac a yw'r amcan hwn yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy neu adnoddau morol eraill megis agregau.                       | Geiriad yr amcan yw 'adnoddau ynni adnewyddadwy morol', sy'n cyfleu'n glir fod yr amcan hwn yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy morol (nid dim ond gwynt ar y môr ac nid adnoddau morol eraill megis agregau).  |
| Amcan 3 yr WNMP | Dylai geiriad yr amcan adlewyrchu'n glir ddiddordebau ac adnoddau naturiol eraill.  | Mae'r cyfeiriad at y datblygiad iawn yn y lle iawn, sydd wedi'i ychwanegu at yr amcan, yn ymdrin â'r mater hwn.   |
| Amcan 3 yr WNMP | Dylai'r amcan fod yn benodol ar gyfer sicrhau diogelwch ynni yng Nghymru, nid y DU.   | Mae'r seilwaith cyflenwi ynni yn un ledled y DU. Mae caniatâd ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni mawr sy'n hanfodol i ddiogelu ffynonellau ynni (a fydd yn Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol) yn cael ei gadw ar lefel Llywodraeth y DU. |
| Amcan 6 yr WNMP | Dylid ehangu Amcan 6 i gynnwys y cysyniad o forweddau cenedlaethol dynodedig.   | Mae hwn yn sylw ar ei ben ei hun nad yw'n adlewyrchu ymatebion ehangach i'r ymgynghoriad.   |
| Amcan 8 yr WNMP | Dylid cryfhau'r geiriad i sicrhau bod GES yn cael ei gyflawni a'i gynnal, yn hytrach na'i gefnogi.  | Mae'r WNMP yn ymgorffori a chefnogi targedau GES. Fodd bynnag, mae'r gwaith o gyflawni GES yn dibynnu ar amryw o ffactorau ac ni ellir ei ddarparu'n uniongyrchol trwy'r WNMP yn unig.  |

**Tabl 10: Polisiâu Cyffredinol yr WNMP**

| Adran  | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Rheswm dros beidio â newid   |
|--|---|--|
| <b>Polisiâu Cyffredinol</b>                      |   |  |
| Pwysoliad polisi                                 | Pan fo Polisiâu Cyffredinol yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynigion gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol i fwrw ymlaen â nhw lle na ellir mynd i'r afael ag effeithiau andwyol, dylid cryfhau'r geiriad hwn i'w gwneud hi'n ofynnol i gynigion fodloni'r prawf amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau symud ymlaen. | Mae'r WNMP yn fframwaith polisi cadarnhaol i gefnogi datblygu cynaliadwy trwy wneud penderfyniadau cymesur a seiliedig ar risg. Mae polisiâu'r WNMP yn cydreddeg â darpariaethau rheoleiddio a deddfwriaethol, ac mae pwysoliad polisi wedi'i ddatblygu ar y cyd â chyrff statudol a rheoleiddio perthnasol, megis CNC. Fodd bynnag, mewn ymateb i adborth gan rhanddeiliaid, mewn amryw o achosion, cryfhawyd geiriad y polisi o "dylai" i "rhaid cyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol". |
| <b>Polisi Cyffredinol GEN – Polisi Cynllunio</b> |   |  |
| GEN_01 a GEN_02                                  | Mae GEN_01 a GEN_02 yn ddatganiadau yn hytrach na pholisi, ac yn ailddatgan gofynion ac egwyddorion deddfwriaethol ehangach ar sut i ddefnyddio'r cynllun. Mae posibilrwydd o ddyblygu rhwng GEN_02 a SCI_01.   | Mae'r polisiâu hyn yn pennu diben y broses gynllunio a'r egwyddor bod penderfynwyr yn defnyddio'r WNMP yn gymesur. Yn dilyn trafodaeth gyda'r MPSRG, cytunwyd i gadw'r polisiâu hyn ond nid ydynt yn eu cyflwyno fel rhai cyffredinol mwyach.  |
| GEN_01   | Dylai GEN_01 roi mwy o bwyslais ar warchod a gwella'r amgylchedd morol, ac ar fanteision cymdeithasol.  | Mae GEN_01 yn cael ei fframio gan ddatblygu cynaliadwy ac felly'n ymgorffori pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy.   |
| GEN_02   | Dylai GEN_02 gynnwys cyfeiriad at ddefnyddio rhagofalon.  | Mae iaith bellach ar yr egwyddor ragofalus wedi'i hychwanegu at yr WNMP, a bydd y Canllawiau Gweithredu sy'n cyd-fynd â'r WNMP yn cynnwys canllawiau ar wneud penderfyniadau cymesur ac yn cymhwyso'r egwyddor ragofalus lle bo hynny'n briodol (er enghraifft, lle mae diffyg tystiolaeth yn ffactor).  |
| GEN_02   | Dylai fod yn glir bod GEN_02 yn berthnasol i'r WNMP yn unig ac nad yw'n eithrio datblygwyr rhag cydymffurfio â gofynion rheoleiddio a pholisi ehangach. Dylid darparu'r canllawiau pellach.   | Mae'r WNMP yn glir y bydd y cynllun yn arwain y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac y bydd hyn yn fodd i gymhwysu gofynion a chyfrifoldebau rheoleiddio presennol.  |

| Adran  | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Rheswm dros beidio â newid  |
|--|--|---|
| <b>Polisi Cyffredinol ECON – Cyflawni Economi Forol Gynaliadwy</b>       |  |   |
| ECON_01  | Mae'r polisi yn canolbwyntio ar ddatblygu ar draul agweddau ehangach ar lesiant. Dylid egluro, pa bynnag ddatblygiad morol a gynigir, y dylai fod budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a diwylliannol i gymunedau'r arfordir. Mae dyblygu rhwng ECON_01 a SOC_02. | Datblygwyd polisiau'r WNMP i weithio gyda'i gilydd, gyda'r Polisiau trawsbynciol Cyffredinol a'r Polisiau Sector yn dod at ei gilydd i gefnogi datblygu cynaliadwy ar y cyd. Ni dderbynnir bod dyblygu rhwng polisiau ECON_01 (gyda'i ffocws ar dwf economaidd cynaliadwy y gellir cronni budd ohono i gymunedau arfordirol) a SOC_02 (sy'n canolbwyntio ar bob agwedd ar lesiant). |
| <b>Polisi Cyffredinol SOC – Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach a Chyfiawn</b> |  |   |
| SOC_04   | Dylai gofynion polisi sicrhau bod maint a chwmpas y dystiolaeth sydd ei hangen gan ymgeiswyr yn cael eu mynegi'n glir.   | Mae'r WNMP yn gosod egwyddorion polisi, gan gynnwys egwyddor bandio prosiectau, er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cymesur. Bydd penderfyniadau ar dystiolaeth o ofynion yn cael eu gwneud ar sail pob achos unigol, yn ôl disgrisiwn y penderfynwyr. Caiff Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau atodol hefyd, pan fo hynny'n briodol.                                |
| SOC_05 a SOC_06  | Dylai'r testun rhagarweiniol i bolisiau SOC_05 a SOC_06 ailadrodd yr angen am gymeradwyaethau angenrheidiol wrth ymdrin ag asedau treftadaeth.   | Mae'r testun hwn yn cyd-destunoli'r polisiau drwy nodi hyd a lled a natur yr asedau hanesyddol a'r tirweddau dynodedig. Mae'r WNMP yn gosod egwyddorion polisi allweddol ac nid yw'n disodli nac yn negyddu'r angen am gymeradwyaethau rheoliadol; gellir darparu canllawiau ar gymeradwyaethau rheoliadol ar wahân, yn ôl y gofyn.   |
| SOC_05   | Dylai'r polisi hefyd gynnwys asedau sydd heb eu dynodi ac sy'n cwmpasu'r asedau hanesyddol a'u lleoliadau.   | Mae geiriad y polisi eisoes yn cynnwys asedau hanesyddol a'u lleoliadau. Nid yw'r polisi yn gwahaniaethu rhwng asedau dynodedig a rhai sydd heb eu dynodi; mae naratif y polisi yn nodi nad yw absenoldeb asedau dynodedig yn awgrymu bod llai o arwyddocâd i asedau sydd heb eu dynodi.  |

| Adran                    | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Rheswm dros beidio â newid  |
|--------------------------|---|---|
| SOC_06                   | Gallai'r polisi hwn gynnwys Tirweddau Hanesyddol ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig.   | Mae SOC_06 yn ymwneud â thirweddau sy'n ddarostyngedig i ddynodiad statudol ac yn elwa ar y mesurau diogelu statudol cysylltiedig, er mwyn cydnabod arwyddocâd y system gynllunio wrth gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y tirweddau hyn.  |
| SOC_06 a SOC_07          | Dylid cymhwysu pwysoliad polisi cyfartal i dirweddau a morweddau dynodedig.   | Er bod polisi tebyg yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y ddau bolisi (diwygiwyd geiriad y polisïau i'w gwneud hi'n ofynnol i ystyried a mynd i'r afael ag effeithiau andwyol ac er mwyn annog manteision cadarnhaol), rhoddir lefel uwch o ystyriaeth a diogelwch i dirweddau dynodedig yn ôl eu natur. |
| SOC_07, SOC_08 ac SOC_09 | Cwestiynwyd a fydd hi'n ofynnol i gynigion ddangos sut yr ystyriwyd effeithiau posibl ar forweddau a phrosesau arfordirol yn ardaloedd morol Lloegr.  | Mae GOV_02 (cydnawsedd trawsffiniol) wedi'i gryfhau i ganolbwyntio'n benodol ar gydnawsedd trawsffiniol.  |
| SOC_08                   | Mae'r diffiniad o'r term 'oes' yn aneglur.  | Ni fyddai'n briodol rhoi diffiniad penodol, gan y bydd hyd "oes" yn amrywio rhwng pob prosiect.   |
| SOC_08 ac SOC_09         | Dylai'r polisïau hyn gysylltu â Datganiadau Ardal a Chynlluniau Datblygu Lleol arfordirol ac ymgorffori cyfyngiadau ar ddatblygiadau penodol mewn meysydd risg, yn ogystal â chydabod gwerth adlinio rheoledig. | Mae naratif y polisi eisoes yn ymgorffori'r egwyddorion hyn ac yn cyfeirio at y Nodyn Cyngor Technegol perthnasol ac at bolisi SMP. Mae polisi GOV_02 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ystyried cynlluniau datblygu daearol perthnasol a Datganiadau Ardal perthnasol.                                   |
| SOC_10                   | Gellid cyfuno'r polisi hwn â pholisi SOC_08.  | Mae polisïau SOC_08 ac SOC_10 yn cwmpasu pynciau penodol a gwahanol; mae SOC_08 yn ymwneud â chydnerthedd datblygiad i newid arfordirol a llifogydd, mae SOC_10 yn canolbwyntio ar osgoi neu leihau/lliniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr.   |



| Adran   | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Rheswm dros beidio â newid  |
|---|---|---|
| <b>Polisi Cyffredinol ENV – Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol</b>          |   |   |
| ENV_02  | Gallai ENV_02 geisio gwella MPAs a'r amgylchedd morol ehangach yn fwy rhagweithiol.   | Mae ENV_02 yn diogelu MPAs rhag effeithiau andwyol, mae geiriad y polisi wedi'i gadw yn dilyn trafodaeth gyda swyddogion polisi'r llywodraeth a CNC sy'n arwain ar ddynodi a rheoli MPAs. Mae ENV_01 yn ymgorffori anogaeth i gynigion sy'n cyfrannu at ddiogelu, adfer neu wella ecosystemau morol.    |
| ENV_02  | Mae'r cyfeiriad at IROPI yn naratif y polisi yn tanseilio'r polisi.   | Byddai dileu'r ddarpariaeth ar gyfer IROPI yn mynd yn groes i Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.   |
| ENV_04  | Gallai'r polisi ymdrin â lliniaru digwyddiadau sbwriel morol ac anogaeth i leihau faint o sbwriel a gaiff ei daflu.                           | Mae'r polisi'n canolbwyntio ar sicrhau bod cynigion yn cael eu dylunio i osgoi neu i leihau'r sbwriel a gyflwynir, gan leihau'r sbwriel yn anuniongyrchol. Bydd Canllawiau Gweithredu Atodol yn cwmpasu camau ategol ehangach, gan gynnwys lliniaru a chamau i leihau faint o sbwriel a gaiff ei daflu. |
| <b>Polisi Cyffredinol GOV – Hyrwyddo Llywodraethu Da</b>                  |   |   |
| Cyflwyniad i GOV – Hyrwyddo Llywodraethu Da                               | Gellid rhoi mwy o fanylion am y trefniadau ar gyfer adolygu a gwerthuso'r WNMP.   | Mae'r materion hyn yn cael eu cwmpasu gan Fframwaith Monitro ac Adrodd ar wahân, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r WNMP.  |
| GOV_02  | Byddai'n ddefnyddiol crybwyll yr angen i ystyried unrhyw effeithiau ar ardaloedd cyfagos awdurdodau a'r potensial ar gyfer effeithiau cronol. | Cwmpesir effeithiau cronol gan GOV_01; mae naratif y polisi i GOV_01 yn cyfeirio at ystyried unrhyw effeithiau ar ardaloedd cynllun morol cyfagos. Mae'r naratif ategol i GOV_02 eisoes yn cyfeirio at leihau'r effeithiau andwyol mewn awdurdodaethau cyfagos.   |
| <b>Polisi Cyffredinol SCI – Defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn yn Gyfrifol</b> |   |   |
| SCI_01  | Ymddengys fod y polisi hwn yn cyfeirio at sut y dylid cymhwyso polisiâu eraill. Mae'n bosibl y bydd yn dyblygu GEN_02.                        | Mae SCI_01 yn nodi'r egwyddor allweddol o wneud penderfyniadau cymesur sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae ei ffocws ar dystiolaeth yn ei wahaniaethu'n glir o GEN_02, sy'n ymwneud â system gynllunio gymesur sy'n seiliedig ar risg.   |

**Tabl 11: Polisiâu Sectorau**

| Adran                    | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Rheswm dros beidio â newid  |
|--------------------------|--|---|
| <b>Amcanion y Sector</b> |  |   |
| Nodi sectorau            | Nid yw gwaith amddiffyn yr arfordir yn cael ei gydnabod fel sector.  | Mae ystyriaethau perthnasol yn cael eu cwmpasu gan SOC_08 ac SOC_09.  |
| Pob un                   | Dylai Amcanion y Sector gael eu crynhoi a'u cyflwyno'n gynt ac yn fwy amlwg o fewn yr WNMP, yn hytrach na chael eu gwasgaru o fewn penodau'r sector. | Mae Amcanion y Sector yn cyfleu'r sefyllfa a ddymunir i'r sector yn y dyfodol ac yn darparu cyd-destun ar gyfer Polisiâu Sector. Mae'r cynllun i ailffocysu'r WNMP ar y weledigaeth graidd, amcanion a pholisiâu yn cynyddu gwelededd Amcanion y Sector.  |
| Agregau                  | Nid yw Amcan y Sector o reidrwydd yn gyson â chysyniad datblygu cynaliadwy.  | Mae'r WNMP yn cydnabod rôl hanfodol agregau morol ar gyfer datblygu economaidd ac yn cydnabod hefyd fod angen rheoli echdynnu yn ofalus, gyda darpariaeth ar gyfer terfynau tunelledd. Mae geiriad naratif y polisi yn y bennod Agregau wedi cael ei drafod gyda CNC er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol o ffactorau economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Polisi Ategol ar gyfer Agregau diwygiedig yn cynnwys y gofyniad i gynigion gydymffurfio â Pholisiâu Cyffredinol yr WNMP, gan gynnwys polisiâu ENV – Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol. |
| Carthu a gwaredu         | Byddai'r cyfeiriad at gynaliadwyedd yn Amcan y Sector yn cael ei groesawu.   | Mae Amcan y Sector yn canolbwyntio ar gynnal mynediad mordwyo, nid twf y sector. Mae'r Polisi Ategol a naratif y polisi yn cyfeirio'n glir at gydymffurfiaeth â Pholisiâu Cyffredinol yr WNMP (gan gynnwys polisiâu ENV – Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol) ac i sicrhau nad yw dyddodi deunydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar gydnherthedd ecosystemau.  |
| Porthladdoedd a Morgludo | Mae'n ddryslyd i gynnwys marinas o dan Porthladdoedd a Morgludo.   | Paratoir yr WNMP yn unol â'r MPS, sy'n cynnwys marinas o dan y sector Porthladdoedd a Morgludo.   |
| Porthladdoedd a Morgludo | Dylai'r WNMP fynegi'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy'r môr a'r sector mordeithio.  | Mae'r WNMP eisoes yn mynegi'r cyfleoedd hyn yn glir.  |
| Porthladdoedd a Morgludo | Dylai Llywodraeth Cymru ariannu gwaith datblygu seilwaith a staff porthladdoedd i wasanaethu'r farchnad mordeithio.                                  | Mae hyn y tu allan i gwmpas yr WNMP.  |

| Adran                                    | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Rheswm dros beidio â newid   |
|--|---|--|
| Trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff | Dylid rhoi sylw i ddŵr wyneb a gwastraff dŵr ar wahân.  | Mae'r bennod hon yn nodi'r cyd-destun strategol allweddol a'r egwyddorion polisi lefel uchel sydd eu hangen i ddiogelu seilwaith presennol ac arfaethedig y sector cyfan, beth bynnag fo'r sbardun penodol.  |
| Twristiaeth a Hamdden                    | Mae Twristiaeth a Hamdden yn ddau sector ar wahân y gellid eu rhannu.   | Caiff Twristiaeth a Hamdden ei drin fel sector unigol yn yr MPS.   |
| Twristiaeth a Hamdden                    | Ni chyfeirir at werth hamdden at lesiant, iechyd a chydlyniant cymunedol.   | Roedd y cyfeiriadau hyn eisoes yn bresennol yn naratif polisi drafft yr WNMP; maent bellach yn fwy gweladwy yn naratif polisi cywasgedig yr WNMP.  |
| Twristiaeth a Hamdden                    | Dylid cynnwys darpariaeth ar frandio safonol, hysbysebu, hyrwyddo a darparu gwybodaeth am safleoedd.  | Mae'r materion hyn y tu allan i gwmpas yr WNMP.  |
| <b>Polisiau Sector</b>                   |   |  |
| Agregau                                  | Efallai bod ffordd fwy priodol o reoli lefel yr echdynnu o ardal ddiffiniedig yn hytrach na defnyddio terfyn tunelledd yn unig. Cwestiynwyd y terfyn tunelledd o 800,000 a osodwyd ar gyfer ardal Aber Afon Hafren. | Mae'r dull hwn wedi'i gytuno gyda CNC. Mae cap y tunelledd yn seiliedig ar dystiolaeth bresennol sy'n adlewyrchu'r gyfradd echdynnu bresennol a sensitifwydd amgylcheddol.   |
| Agregau                                  | Nid yw'r terfyn tunelledd o 800,000 a osodwyd ar gyfer ardal Aber Afon Hafren yn cynnwys estyniad newydd Culver Sand sy'n gorgyffwrdd â system afon Hafren.   | Mae'r WNMP yn berthnasol i holl foroedd Cymru ac mae angen cyfiawnhad i gyflwyno trwyddedau (tra bod iMADP, sef tarddiad y terfyn tunelledd o 800,000, yn berthnasol i Fôr Hafren yn unig). Ar hyn o bryd, nid yw'n briodol nac yn ymarferol i bennu terfyn tunelledd Cymru gyfan.                 |
| Ynni – Carbon Isel                       | Gellid rhoi ystyriaeth bellach i gynlluniau ynni cymunedol.   | Mae'r WNMP yn nodi pwysigrwydd archwilio opsiynau ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy, yn enwedig y rhai sy'n cyfrannu at lesiant cymunedau arfordirol. Bydd y Canllawiau Gweithredu yn tynnu sylw pellach at bwysigrwydd perchnogaeth leol a thargedau sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy morol. |

| Adran                    | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid   | Rheswm dros beidio â newid   |
|--------------------------|---|--|
| Ynni – Olew a Nwy        | Dylid ailddrafftio polisi'r sector Olew a Nwy er mwyn osgoi awdurdodi unrhyw geisiadau newydd.  | Mae'r Polisi Ategol wedi'i fireinio, gan adlewyrchu'r blaenoriaethau polisi yn y meysydd o dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r Polisi Ategol ar gyfer yr ardal o dan awdurdodaeth Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru i osgoi parhau i gloddio tanwyddau ffosil. Fodd bynnag, mae cyfeiriad y Polisi Ategol yn parhau i fod ar waith ar gyfer awdurdodaeth Llywodraeth y DU, gan adlewyrchu bod hon yn swyddogaeth sy'n cael ei chadw gan Lywodraeth y DU, ac mae polisi Llywodraeth y DU yn cydnabod arwyddocâd parhaus olew a nwy i ddiogelwch ynni wrth i'r DU symud tuag at economi carbon isel. |
| Pysgodfeydd              | Nid yw FIS_01 yn cyfeirio at bysgota môr hamdden o gwbl.  | Mae pysgota môr hamdden yn cael ei gwmpasu gan y sector Twristiaeth a Hamdden.   |
| Pysgodfeydd              | Nid yw'r WNMP yn cydnabod yn ddigonol y prinder data stoc. Mae angen tystiolaeth am ddsbarthiad a phwysigrwydd pysgodfeydd ac i ddiffinio pysgodfeydd pwysig.                   | Mae naratif y polisi yn tynnu sylw at y ffaith bod bylchau mewn tystiolaeth a phwysigrwydd datblygu sylfaen dystiolaeth addas i'r diben fel sail i'r broses o wneud penderfyniadau.  |
| Pysgodfeydd              | Nid yw'r WNMP yn mynd i'r afael â ble a phryd y dylid cynnal gweithgarwch pysgodfeydd.  | Mae'r FNMP yn darparu fframwaith polisi o egwyddorion i'w cymhwyso wrth benderfynu ar briodoldeb gweithgarwch. Nid yw'n rhagnodol ynghylch amseriad gweithgarwch na'r fethodoleg benodol i'w defnyddio. Mae'r WNMP yn tynnu sylw at fylchau yn y dystiolaeth fel ffactor cyfyngol ar gyfer diffinio polisi ymhellach, ac mae'n amlygu pwysigrwydd datblygu sylfaen dystiolaeth addas i'r diben fel sail i'r broses o wneud penderfyniadau.   |
| Porthladdoedd a Morgludo | O ran P&S_02, dylid darparu eglurder ar y gyfundrefn drwyddedu bresennol a pha awdurdod fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros swyddogaethau a ddatganolwyd gan Ddeddf Cymru 2017. | Mae'r sylw yn ymwneud ag adran lywodraethu'r WNMP drafft, nid P&S_02, a bydd yn cael sylw mewn dogfen ganllawiau atodol ar lywodraethu.  |

| Adran                                    | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid  | Rheswm dros beidio â newid   |
|--|--|--|
| Porthladdoedd a Morgludo                 | Nid yw hi'n amlwg sut y mae hyblygrwydd ar gyfer twf sectorau sy'n gofyn am seilwaith penodol mewn perthynas â seilwaith y porthladd neu warysau wedi'i gynnwys yn y polisi. | Mae P&S_02 yn ymdrin â datblygu cyfleusterau porthladd a harbwr.   |
| Ceblau o dan y môr                       | Dylai'r WNMP annog cynigion sy'n lleihau cyfanswm y ceblau sydd eu hangen.   | Mae'n arfer sector i amrywio llwybrau ceblau er mwyn lleihau'r risg o fethiant seilwaith hanfodol.               |
| Trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff | Dylid cynnwys polisi yn ymwneud â datblygu seilwaith cydgyssylltiedig ar gyfer trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr gwastraff mewn safleoedd trawsffiniol.                         | Mae'r WNMP yn canolbwyntio ar ddiogelu'r seilwaith presennol. Mae GOV_02 yn ymdrin â chydgyssylltu trawsffiniol. |

#### Polisiau Diogelu Sector

|                    |  |  |
|--------------------|--|--|
| Amddiffyn          | Dylai DEF_01 gael ei aralleirio i roi pwys sylweddol ar sylwadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn hytrach na gofyn am gymeradwyaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.                       | Mae Amddiffyn a diogelwch gwladol yn swyddogaeth sy'n cael ei chadw gan Lywodraeth y DU; cytunwyd ar ddull polisi DEF_01 gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae'n gyson â'r polisi yng nghynlluniau morol Lloegr.  |
| Ynni – Olew a Nwy  | Dylid cael gwared ar Bolisiau Diogelu ar gyfer Olew a Nwy er mwyn dangos uchelgais i symud i ffwrdd o ddbyniaeth ar danwyddau ffosil.  | Er bod polisi'r sector ar gyfer awdurdodaeth Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru i osgoi parhau i gloddio tanwyddau ffosil, mae cyfeiriad polisi awdurdodaeth Llywodraeth y DU yn adlewyrchu'r ffaith bod hon yn swyddogaeth sy'n cael ei chadw gan Lywodraeth y DU, ac mae polisi Llywodraeth y DU yn cydnabod arwyddocâd parhaus olew a nwy i ddiogelwch ynni'r DU. |
| Ynni – Carbon Isel | Mewn rhai achosion, gall ELC_03 arwain at oedi hir cyn gwneud penderfyniadau, gan arwain o bosibl at feysydd lle na all datblygiad arall ddigwydd hyd nes y gwneir penderfyniadau. | Caiff polisi diogelu ei gymhwyso mewn modd cymesur ac ni ddylai ymestyn amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ormodol.  |
| Pysgodfeydd        | Mae FIS_03 ond yn ymdrin â rhywogaethau a chynefinoedd pysgod. Mae lle i rywogaethau eraill dderbyn diogelwch cysylltiedig.  | Mae ENV_01 yn cwmpasu ecosystemau morol ac yn annog gwella neu adfer cynefinoedd morol.  |

